# Cynhadledd PBC “Datblygu Rhwydweithiau Ecolegol: cynllunio, cyfuno a chyflawni ar gyfer Cymru”

### Prifysgol Bangor, y 18fed a’r 19eg o Fedi 2013

## Y diwrnod cyntaf

**Cadeirydd: Madeleine Havard, Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyhoeddodd y cadeirydd wrth y gynhadledd na allai Morgan Parry gadeirio sesiwn y dydd oherwydd salwch; estynnodd Madeleine ddymuniadau da iddo am wellhad buan, ac adleisiwyd ei neges gan y Gweinidog a mynychwyr y gynhadledd. Aeth Madeleine ymlaen i gyflwyno Alun Davies AC, ac yn ei sylwadau agoriadol dywedodd fod y ffocws yng Nghymru ar hyn o bryd yn troi o amgylch yr economi a swyddi, ond ailddatganodd y neges y dymunai Morgan ei chyfleu i’r gynhadledd, sef ‘mae’r amgylchedd yn gaffaeliad, nid yn rhwystr’ i adfywiad economaidd.

**Yr achos dros gadwraeth ar raddfa tirwedd: 10 rheswm da pam fod mwy yn well: Yr Athro Chris D. Thomas, Prifysgol Efrog**

**Cyflwyniad**
**Noder: tynnwyd rhai delweddau o’r cyflwyniad hyd nes y ceir cadarnhad ynghylch hawlfraint.**

**Crynodeb**
Mae’r cyflwyniad yn crynhoi’r rhesymeg ecolegol y tu ôl i gadwraeth ar raddfa fawr. Ceir niferoedd mwy o rywogaethau mewn ardaloedd sy’n fawr ac amrywiol, a lle mae cynefinoedd wedi’u cysylltu; ac mae rhywogaethau unigol yn goroesi ac yn lledaenu’n well drwy dirweddau sydd â nifer uchel o gynefinoedd o safon. Daw cadwraeth ar raddfa fawr hyd yn oed yn bwysicach o dan newid hinsawdd, wrth i rywogaethau symud eu dosbarthiad drwy dirweddau. Mae’n bwysig hefyd i gynnal gwasanaethau ecosystem. Mae cadwraeth gydlynol ar raddfa fawr yn debygol o fod yn fwy effeithiol na chadwraeth dameidiog sy’n digwydd yn annibynnol mewn safleoedd gwahanol.

**Araith y Gweinidog; Alun Davies AC, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Llywodraeth Cymru**

Dywedodd y Gweinidog fod creu swyddi a thwf a mynd i’r afael â thlodi yn flaenoriaeth ar gyfer Cymru. Nid tlodi economaidd yn unig y mae angen i ni ystyried, ond lleihau tlodi mewn ystyr ehangach, gan gynnwys mynediad i’r byd naturiol a ‘thlodi rhywogaethau’ sydd ynghlwm â cholli rhywogaethau.
Adroddiad ar Gyflwr Natur – ymateb Llywodraeth Cymru: dywedodd y Gweinidog iddo gael ei ‘stopio’ gan yr adroddiad ac nid oedd am ymateb drwy gyhoeddi datganiad i’r wasg yn unig. Roedd angen i’r ymateb fod yn hael a phellgyrhaeddol. Ni ddylid anelu bys.
Newid yn yr hinsawdd: pwnc sy’n cael ei drin o ddifri yng Nghymru a defnyddir arddull wahanol o gymharu â San Steffan. Bydd Llywodraeth Cymru’n buddsoddi yn y gwaith hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n dangos arweiniad, yn gweithredu fel cyfrwng a chatalydd wrth ymwneud â'r amgylchedd. Rhaid i'r pwyslais fod ar 'weithredu a chyflawni pethau'. Mae'n rhaid i'r holl sector amgylcheddol gyd-weithio i gyflawni amcanion.
Her i'r gynulleidfa: cyflwynodd y Gweinidog her i'r cynadleddwyr, sef iddynt adael gyda'r penderfyniad y bydd eu sefydliad yn cyflawni rhywbeth.
Cyhoeddwyd y byddai £6m ar gael i wella hydwythedd cynefinoedd ac i ddarparu gwasanaethau ecosystemau. Fe'i defnyddir i hybu dulliau arloesol gan elwa ar brofiad pobl sy'n gwybod sut i reoli'r tir a hynny'n gynaliadwy. Cyhoeddir datganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar ei flaenoriaethau adrannol, yn yr hydref.
Taliad Amaethyddol Cyffredin (TAC): defnyddir cyllid TAC i hybu 'tirweddau byw'. Ni ddylid edrych ar gefn gwlad Cymru fel cartref i'r henoed neu barc hamdden. Mae angen hybu buddion gwirioneddol, ac mae trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r UE ar lunio'r TAC.
Cynllun Datblygu Gwledig: Caiff manylion y CDG eu hamlinellu yn y misoedd nesaf. Bydd pwyslais yn cael ei roi ar reoli'r dirwedd a darparu gwasanaethau ecosystemau.
Glastir: bydd adolygiad terfynol yn y gwanwyn, gyda'r cynllun ar waith erbyn 2015.
Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ar Daliadau am Wasanaethau Ecosystemau - proses sy'n galluogi pobl i wneud elw o adnoddau naturiol ac mae'n hynod berthnasol i ucheldir Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n datgelu eu meddyliau ynghylch Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau yn y flwyddyn newydd.
Cynllun Gweithredu Peillwyr: bydd y Gweinidog yn adrodd ynghylch cynnydd y Cynllun Gweithredu Peillwyr yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2014.

**Sesiwn Holi ac Ateb Gweinidogol**

**C1: Saith diben Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) - peidio â chynnwys bioamrywiaeth na bywyd gwyllt. Pam? A fydd y geiriad yn newid i gynnwys bioamrywiaeth?**

A1: Mae Bil yr Amgylchedd yn rhoi mwy o bwyslais ar fioamrywiaeth. Rydym angen deddfwriaeth i ymdrin â Lles Anifeiliaid, Bioamrywiaeth ac Iechyd Anifeiliaid, fwy na thebyg. Nid yw hyn yn derfynol ac mae'r trafodaethau gyda swyddogion yn parhau. Golyga'r dagfa ddeddfwriaethol nad oes modd cynnwys yr holl feysydd mewn un Bil. Nid beirniadaeth ar y meysydd sydd heb eu cynnwys yw hyn. Mae angen i CNC trwy ddeddfwriaeth gyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd cydlynol ar frys. Mae'r drafodaeth am newid y geiriad ynghylch diben CNC rhwng y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd. Ni fydd y Gweinidog yn rhoi sylwadau ar benderfyniadau CNC yn gyhoeddus gan fod CNC yn sefydliad annibynnol ac yn gweithredu led braich o Lywodraeth Cymru. Canmolodd y Gweinidog waith CNC hyd yn hyn. Y Prif Weithredwr a Chadeirydd CNC sy'n dehongli llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru i CNC. Cynhelir trafodaethau wrth lunio'r llythyr cylch gwaith, a bydd canlyniadau'r trafodaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y llythyr cylch gwaith sydd i ddod i CNC.

**Datganiad Gweinidogol: Bu'n galondid eich clywed yn gwrando ar borwyr a'r gymuned ffermio. Mae angen mynegi hyn trwy bolisïau, i sbarduno rheolwyr tir a darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer rheoli'r ucheldiroedd.**

**C2: Gyda phrofiad uniongyrchol o'r CDG, rwy'n falch o nodi eich bod am gyflawni pethau. Fel grŵp cymunedol sy'n ceisio darparu buddion drwy'r CDG, teimlwn fod y systemau'n rhwystro ein cynnydd, ac felly ni all cymunedau lleol elwa o'r CDG. Sut rydych chi'n bwriadu newid y systemau hyn?**

A2: Byddem yn cynghori eich bod yn cysylltu â'r swyddog perthnasol i fynd i'r afael â materion penodol eich prosiect os teimlwch nad yw'r CDG yn gweithio i chi. Sicrhaodd y Gweinidog fod y CDG yn gweithio, gan ddweud bod cymunedau gwledig Cymru'n wirioneddol elwa o'r CDG. Bydd cynigion y Gweinidog ar gyfer y CDG nesaf yn fwy cyfeiriol a hyblyg ac yn dileu systemau aneffeithiol.

**Sylwadau'r Gweinidog wrth gloi**

Llunnir y CDG newydd i weithio gyda grwpiau lleol a'u cefnogi. Mae dros 60% o'r CDG yn canolbwyntio ar Glastir ac mae 50% o diroedd comin bellach yn cael eu rheoli'n well oherwydd Glastir. Mae hyn yn llwyddiant mawr a dylem adeiladu arno. Bydd y CDG yn canolbwyntio ar gryfhau cymunedau lleol a'r economi wledig. Cydnabyddir bod rhai elfennau'n gweithio ar hyn o bryd, ond bod eraill yn methu. Bydd y CDG yn cynnwys llwybr ac amcanion clir. Caiff cyllido'r CDG ei symleiddio. Bydd y CDG yn dwyn cronfeydd ynghyd - cronfeydd pysgodfeydd a phosibilrwydd cronfeydd strwythurol, i fod â mwy o effaith. Bydd llai o fiwrocratiaeth a phwyslais ar ganlyniadau. Os na fydd prosiectau'n darparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y gymuned, ac os nad ydynt yn cyd-fynd ag amcanion y CDG, ni chânt eu hariannu. Bydd y prif briodoleddau a gymeradwyir ac a gyfunir i'r CDG yn 'ystwyth, cymwys a hyblyg'. Bydd angen gosod fframwaith gwasanaethau marchnadoedd ecosystemau i alluogi perchenogion tir i elwa o reoli'r ucheldiroedd yn greadigol. Defnyddir y gronfa £6m i ariannu prosiectau pobl sy'n adnabod eu tir - creu gwaith ar gynefinoedd ac ar reoli'r tir yn gynaliadwy. Mae angen dulliau i gefnogi cymunedau gwledig a chreu cydbwysedd rhwng bywoliaethau a darparu gwasanaethau ecosystemau. Bydd angen i benderfyniadau ynglŷn ag amaethyddiaeth gydbwyso bwyd-amaeth ac amaethyddiaeth, a'u dwyn ynghyd. Bydd cymorthdaliadau i ffermwyr yn lleihau dros y ddegawd nesaf, a bydd gwasanaethau ecosystemau tan fframwaith marchnad yn galluogi ffermwyr i wneud elw, nid dim ond ar gostau model anochel sy'n bodoli eisoes.

## Cadwraeth ar Raddfa Fawr ym Mhrydain: Y Dr Nick Macgregor, Natural England

**Cyflwyniad**

**Crynodeb**

Gwelwyd diddordeb cynyddol ar draws cymuned gadwraeth Prydain yn y degawdau diwethaf yn y syniad o rwydweithiau ecolegol a sefydlu cadwraeth dros ardaloedd mawr. Adlewyrchir hyn yn gryf yn y polisïau cadwraeth presennol, ac mae cryn dipyn o adnoddau yn mynd i mewn i brosiectau newydd ar raddfa fawr (yn Lloegr, yn arbennig, yr Ardaloedd Gwella Natur).

Mae angen gwirioneddol felly i bwyso a mesur y gwersi y gellir eu dysgu gan y nifer o brosiectau cadwraeth graddfa fawr sy'n bodoli'n barod. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae prosiect ymchwil ar y cyd rhwng Natural England, Prifysgol Southampton a Phrifysgol Caergrawnt, gyda chyllid a chefnogaeth gan Defra, Scottish Natural Heritage a Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi ceisio mynd i'r afael â hyn. Mae gan y prosiect, sydd bron â'i gwblhau bellach, bedair prif nod:

i. Adeiladu trosolwg da o brosiectau cadwraeth graddfa fawr ledled Prydain (a chynhyrchu cronfa ddata gryno i benderfynwyr ac ymarferwyr cadwraeth)

ii. Edrych sut y defnyddir gwybodaeth wyddonol a gwybodaeth arall fel sail i gynllunio a rheoli prosiectau cadwraeth ar raddfa fawr

iii. Edrych ar agweddau cymdeithasol a sefydliadol cadwraeth graddfa fawr a sut y mae'r rhain yn effeithio ar lwyddiant o ran cyrraedd nodau cadwraeth

iv. Ymchwilio i weld a oes tystiolaeth o fwy o welliannau amgylcheddol mewn ardaloedd sydd â mwy o weithgaredd cadwraeth ar raddfa fawr.

Yn y sgwrs hon byddaf yn amlinellu rhai o'n prif ganfyddiadau. Byddaf hefyd yn crynhoi rhai o'r argymhellion a ddaeth allan o gynhadledd fawr i randdeiliaid a gynhaliwyd yn Llundain yn gynharach eleni. Yno fe gyflwynwyd rhai o'r canfyddiadau gan wahodd cydweithwyr o bob cwr o'r gymuned gadwraeth i drafod rhai o'r prif heriau a'r blaenoriaethau mewn cadwraeth ar raddfa fawr a rhai o'r camau y gellid eu rhoi yn eu lle i'w gefnogi yn y tymor hir.

## Rhwydweithiau cynefin o fewn arddull ecosystemol: Y Dr Jim Latham, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Cyflwyniad**

**Crynodeb**
Mae'r Arddull Ecosystemol yn ennill tir ym maes cynllunio amgylcheddol a rheoli adnoddau naturiol. Mae'r arddull yn gofyn datblygu ecosystemau cadarn a all gyflawni gwasanaethau mewn modd cynaliadwy, ac eto cadw eu systemau a'u gweithrediadau cynhaliol. Elfen bwysig o gadernid ecosystem yw cysylltedd, er mwyn gwrthweithio effeithio darnu cynefinoedd a chaniatáu i brosesau ecolegol weithredu'n rhwyddach ar draws tirweddau. Mae modelu rhwydweithiau cynefin yn fodd ymarferol o helpu cynllunio gweithredu er mwyn cynnal a gwella cysylltedd. Cynhyrchwyd mapiau rhwydwaith, bellach, ar gyfer amryw gynefinoedd eang, gan gynnwys coedwigoedd llydanddail, gweundiroedd, tiroedd pori nas gwellhawyd, corsydd a ffeniau. Bydd y cyflwyniad yn adolygu'r cynnydd â'r mapiau hyn, a'u defnydd ymarferol, wedi'u darlunio o fewn cyd-destun mabwysiadu arddull ecosystemol

**Trafodaeth panel gyda chyflwynwyr y bore**

**C1. Catherine Duigan, CNC: Sut rydyn ni'n galluogi pobl i reoli eu tir?**

A1: Trwy fentrau ymwybyddiaeth a dargedir yn ofodol, ac addysgu. Trwy ddarparu gwell canllawiau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni, yn nhermau sut y gallwn sicrhau lles gwahanol rywogaethau a chynefinoedd mewn ardaloedd penodol. Dylem ofyn i ni'n hunain beth yw'r cynhwysyn hud mewn prosiectau megis Pontbren, sydd â thirfeddianwyr yn darparu'r rôl ganolog. Nid yw pobl o angenrheidrwydd yn ymwybodol o'r hyn sydd, neu a allai fod, yn arbennig ynghylch rhyw ardal. Mae Swyddogion Prosiect Cadwraeth Glöynnod Byw Cymru wedi profi llwyddiant gyda rheolaeth tir trwy dargedu trafodaethau ar yr hyn sy'n bwysig mewn ardaloedd penodol, a thrwy gynnig argymhellion ar ddulliau rheoli mewn trafodaethau gyda thirfeddianwyr.

**C2. Patrick Lindley, CNC: Cwestiwn i Dr Nick Macgregor ar Gadwraeth ar Raddfa Tirwedd, gan gyfeirio at Ardaloedd Gwella Natur yn Lloegr. Sut y gallwn ni gyflawni gwell canlyniadau ar y cyd, i'w gwneud yn haws ar gyfer cyrff ariannu?**

A2. Dr Nick Macgregor: Mae angen cydweithio i ddenu arian ac i helpu i gyfeirio dulliau o ariannu. Yn anorfod, mae yna beth tensiwn yn codi wrth geisio cwrdd ag anghenion gwahanol aelodau. Rhaid datblygu gweledigaeth ar gyfer ardal. Mae'r Prosiect Biosffer yn enghraifft o'r modd y gallwn ni godi ymwybyddiaeth o ardal.

**C3. Peter Evans, Seawatch Foundation: Fe wyddom fod ar wahanol organebau angen gwahanol gynefinoedd. Sut rydyn ni'n blaenoriaethu/cydbwyso hyn o fewn Cynllun Cadwraeth?**

A3. Dr Jim Latham, CNC: Mae angen i ni benderfynu beth yw'r elfennau sy'n unigryw, y rhai na ellir gosod unrhyw beth arall yn eu lle. A beth yw'r cyfyngiadau? Rwy'n cydnabod bod hynny'n anodd. Yn aml mae'n fater o raddfa i gefnogi amrywiaeth. Mae angen i ni wybod beth sy'n mynd i ble, a beth sy'n ffitio ym mhle.

**A3. Yr Athro Chris Thomas: Mae angen i ni wybod ar gyfer beth yn union mae'r lle hwnnw'n bwysig. Mae pobl yn aml yn ystyried y rhywogaethau mwyaf prin – gall hynny fod yn wastraff ar adnoddau os yw'r ardal yn sylfaenol annigonol o ran graddfa neu ansawdd, er cystal pob ymdrech a wneir. Mae angen i ni benderfynu beth y gellir ei gyflawni.**

**C4. Steve Bolchover, cofnodwr gwirfoddol: Rhaid i'r defnydd o'r Dull Ecosystem ofalu rhag anwybyddu ardaloedd cynefinol sy'n fychan ond yn hanfodol, a chefnogi'r ardaloedd olaf yn achos rhai rhywogaethau; mae hyn yn holl bwysig. Dylem gofio hefyd yr ochr negyddol i gysylltedd, e.e. lledaenu rhywogaethau nad ydynt yn frodorol, a chlefydau.**

A4. Yr Athro Chris Thomas: Fe wyddom fod rhywogaethau'n symud i gynefinoedd arbennig wrth ymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae yna ymwelwyr newydd yn y DU – mae rhai gwladychwyr wedi cyrraedd a lledaenu o warchodfeydd natur sy'n cynnig cynefin iddynt, yn enwedig felly adar. Fodd bynnag, mae rhywogaethau a gyflwynwyd wedi cyrraedd yn anghyfartal o fewn amgylchedd nad yw wedi'i ddiogelu, ac wedi symud i mewn i'n hamgylchedd ddiogel – gyda chanlyniadau sy'n effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd oddi mewn iddi. Mae angen i ni adeiladu systemau naturiol sy'n fwy cadarn.

**C5. Tristan Hatton-Ellis, CNC: 1. Mae cynlluniau Amaeth-amgylcheddol yn gaeth iawn, a'r canlyniadau'n gyfyngedig, e.e. mae'n anodd cyflawni 'garwedd'/amrywiaeth mewn cynefin.**
**2. Yn y gorffennol, rydym wedi seilio'n meini prawf wrth ddewis safle ar adnabod yr enghreifftiau gorau o bob math o gynefin o fewn ardal a ddiffiniwyd, ond gellid mynd ati mewn ffordd wahanol ac ystyried y math o gynefin neu gynefinoedd sy'n nodweddu ardal, neu sy'n arbennig ynddi, a dewis safleoedd i gefnogi'r rhain**

A5. Dr Nick Macgregor: Dydyn ni ddim am wanhau ein canlyniadau, ond efallai y byddwn yn awyddus i ffocysu mwy ar ddarparu heterogenedd o fewn ein safleoedd, e.e. cyflawni strwythur llystyfiant amrywiol. Mae angen addysgu swyddogion prosiect i'w galluogi i ddarparu hyblygrwydd yn yr arweiniad y maent yn ei gynnig**.**

A5. Yr Athro Chris Thomas: Rhaid i rai sy'n rheoli newid yn yr hinsawdd ddeall nad oes modd defnyddio dull presgriptif i reoli a chadw popeth, gan fod yr agwedd hon yn sicr o fethu. Mae yna ffin denau rhwng hyblygrwydd a phresgripsiwn**.**

## Rhaglen a chynlluniau Natura 2000 yng Nghymru: Kathryn Hewitt, Rhaglen Natura 2000 LIFE / Cyfoeth Naturiol Cymru

[Cyflwyniad]

**Crynodeb**

Mae Natura 2000 yn rhwydwaith o safleoedd bioamrywiaeth gwarchodedig ledled cyfandir Ewrop, a chynrychiolir Cymru'n anrhydeddus ynddi gan 112 Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig, a'u harwynebedd tua 800,000 ha. Mae Natura 2000 yn enghraifft dda o sut y mae gan safleoedd gwarchodedig eto ran hanfodol yng nghadwraeth bioamrywiaeth o fewn rhwydwaith ecolegol ehangach.

Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 yn gynllun a ariennir gan CNC ac Ewrop er mwyn llunio cynllun strategol ar gyfer rheoli ac adfer pob safle Natura 2000 yng Nghymru. Bydd yn clustnodi costau, nawdd a blaenoriaethau ar gyfer y gweithredu angenrheidiol ar gyfer dwyn y rhywogaethau a'r cynefinoedd dynodedig yn ôl i gyflwr ffafriol.

Bydd y cyflwyniad yn edrych ar ganlyniadau gwaith diweddar y cynllun ynglŷn â phroblemau a pheryglon sy'n effeithio ar safleoedd Natura 2000 ar hyn o bryd, yn ogystal â'r dulliau sudd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â nhw, a lle y mae angen gwneud newidiadau. Edrycha hefyd ar flwyddyn nesaf y cynllun, a sut y gallwn ddechrau cymhathu anghenion Natura 2000 i'r rhaglenni economaidd a chymdeithasol ehangach, er mwyn cael yr arian a'r adnoddau ychwanegol angenrheidiol.

**C:  Un mater sydd angen ymdrin ag e yw targedu safleoedd Natura 2000 ar gyfer datblygiad diwydiannol, e.e. aber afon Llwchwr ar gyfer fforio am nwy glo. Mae angen cydweithio gyda diwydiant i sicrhau'r ddealltwriaeth na ddylid targedu safleoedd o'r fath, a bod gwerth safleoedd yn cael eu llawn werthfawrogi mewn cyd-destun Ewropeaidd.**

A: Kathryn Hewitt, CNC:  Ni fwriadwyd i'r Prosiect Natura 2000 ymdrin â gweithgaredd rheoli safleoedd. Mae rhannau eraill o CNC yn delio â'r mater hwnnw.

## Cynnal cysylltedd a statws cadwraeth y fadfall gribog fawr yng ngogledd Cymru: Y Dr John Wilkinson, Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid

Cyflwyniad

**Crynodeb**

Mae Amphibian and Reptile Conservation yn datblygu offer modelu manwl (gydag arian gan CCGC/CNC) er mwyn rhagfynegi dosbarthiad madfallod dŵr cribog, targedu arolygon, cymryd camau cadwraethol (e.e. cysylltu cynefinoedd), ac asesu effeithiau datblygiadau tybiedig ar statws cadwraethol lleol. Mae'r amcanion hyn yn cyfrannu at strategaeth gwyliadwriaeth integredig ar gyfer y rhywogaeth. Byddwn yn arddangos y dulliau hyn trwy gynnwys enghreifftiau'n deillio o un o'r mannau gorau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i weld madfallod dŵr cribog. Gall deall effeithiau datblygiadau a newidiadau yn y cysylltiad rhwng pyllau dŵr, a'u heffaith ar statws cadwraethol, gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn ogystal ag arwain at fanteision cadwraethol cadarnhaol yn yr hirdymor.

**C: Martyn Evans, Cyngor Sir Fynwy: Sut ydych chi'n mynd i'r afael â glanhau cofnodion a'u gwirio?**

A: Rydyn ni'n gwirio cofnodion sydd eisoes yn bod yn erbyn Google Earth a gwybodaeth arall. Gall cofnodion unigol hefyd wneud cyfraniad pwysig. Rydyn ni'n ymestyn y model i Dde Cymru.

**C: Hilary Kehoe, Partneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn (AGAP): Sut gallwn ni gael rheolaeth ar bori o fewn ardaloedd bychan?**

A: Mae'r mater hwn o fewn maes Digolledu Bioamrywiaeth (Biodiveristy Offsetting), gan ddefnyddio technegau ansoddol. Un enghraifft yw pyllau dŵr yn heneiddio: gallwn ychwanegu pwll arall i'w gysylltu â'r ardal i gymryd lle yr un sy'n cael ei golli.

## Her Rheolaeth Ofodol ar gyfer rhywogaethau symudol: achos mamaliaid morol: Y Dr Peter Evans, Sea Watch Foundation / Prifysgol Bangor

Cyflwyniad

**Crynodeb**

Mae mamaliaid (ac adar) morol yn neilltuol anodd eu rheoli. Heblaw'r rhai sydd â safleoedd epilio neu orffwys neilltuol (morloi, adar môr nythol), maent yn symud o gwmpas yn barhaus. Mae yn y dyfroedd ogylch Cymru amrywiaeth eang o rywogaethau mamaliaid morol (cofnodwyd 20, 6 ohonynt yn rheolaidd). Mae gan bob un rhywogaeth reolaidd ei dosbarthiad neilltuol ei hun, er y mae'r amrywiaeth rhywogaethau ar ei fwyaf yn ne Môr Iwerddon. Mae rhai mannau neilltuol ddwys o fewn cynefin rhywogaeth, ac yn aml y mae'r eiddo gwahanol ddosbarthau'n gorgyffwrdd, a gellir eu cysylltu â nodweddion bathymetrig, neu eigionegol, neu'r ddau. Hyd yma, ni fuont yn ganolbwynt neilltuol rheolaeth ofodol, ar ffurf ardaloedd morol gwarchodedig. Tan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr

Undeb Ewropeaidd, mae angen Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar dair rhywogaeth famalaidd forol, sef y dolffin trwynbwl, y llamhidydd, a'r morlo llwyd. Gan ddefnyddio canlyniadau ymchwil ac arolygu  tymor hir ar ddolffiniaid trwynbwl ar ran CNC yn enghraifft, ystyrir heriau ac atebion dichonol rheolaeth ofodol.Crynodeb

**C: Pa weithgareddau sy'n cael eu cyfyngu neu eu cyflwyno i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n llesol i rywogaethau?**

A: Monitro, rheoleiddio i arbed gweithgaredd anghyfreithlon. Mae pysgota wedi'i gyfyngu i bysgota gyda photiau, a physgota cregyn bylchog.

## Cysylltu rheoli coetiroedd ac adferiad rhywogaethau: Neil Riddle, Comisiwn Coedwigaeth Lloegr

Cyflwyniad

**Crynodeb**
Mae cyfran helaeth o fywyd gwyllt y goedwig yn dibynnu ar nodweddion arbennig sy'n perthyn i goed – nodweddion sydd bellach yn brinnach oherwydd y dirywiad a welwyd mewn rheoli coetiroedd yn y gorffennol. Mae Comisiwn Coedwigaeth Lloegr a'r RSPB yn gweithio gyda pherchnogion coetiroedd, asiantau a chontractwyr i annog rheolaeth mewn coetiroedd, gan ddefnyddio dewisiadau pwrpasol yr English Woodland Grant Scheme. Cafodd yr amodau eu datblygu ar y cyd ar gyfer Grant Gwella Coetiroedd penodol, gan gyfrannu 80% o gostau coedwigaeth safonol ar gyfer gweithgareddau fel: cwympo un-tro er budd rhywogaethau canopi brodorol ac annog isdyfiant o rywogaethau llwyni; ailsefydlu prysgoedio, agor rhodfeydd a chyfoethogi ymyl coetiroedd. Er 2009, mae'r Prosiect wedi rhoi cyngor i berchnogion 15,000ha o goetiroedd ac wedi rhoi cymorth grant i fwy nag 8,000ha o goetiroedd mewn ardaloedd targed. Yn ogystal â bod o fudd i fywyd gwyllt y goedwig, mae hyn wedi annog yr arfer o gynhyrchu pren a thanwydd coed yn lleol. Mae ein gwaith yn Nwyrain Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr yn dangos y gall gweithio i adfer bywyd gwyllt y goedwig arwain hefyd at roi hwb i'r economi wledig leol.

**C: A wnaethoch chi fonitro'r boblogaeth adar i fesur llwyddiant?**

A: Do. Rhoddwyd cytundeb i RSPB i fonitro adar dros gyfnod o 3 blynedd, a hynny mewn 1000ha o gynefinoedd tir uchel a thir isel. Mae angen ailadrodd yr arolygon, o bosibl trwy ddefnyddio myfyrwyr PhD. Dylid ystyried mesurau o lwyddiant dros gyfnod o 5 i 20 mlynedd.

**C: A oedd yna unrhyw faterion rheoli yn codi ar dir y Llywodraeth?**

A: Doedd hyn ddim yn broblem, gan mai dim ond 18% o'r coedwigoedd sydd ar dir y llywodraeth yn Lloegr. Rwy'n deall bod y sefyllfa'n wahanol yng Nghymru.

**C: A gymerwyd unrhyw gamau i reoli ysglyfaethwyr, yn cynnwys rheoli gwiwerod llwyd a phiod?**

A: Naddo. Cymerwyd camau i reoli ceirw ar dir isel mewn coedwigoedd.

## Yr ail ddiwrnod

**Y Cadeirydd Matthew Quinn, Cyfarwyddwr Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Llywodraeth Cymru**

### Bioamrywiaeth ac ecosystemau – agwedd Cyfoeth Naturiol Cymru: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru

[Cyflwyniad]

**Crynodeb**

Bydd y cyflwyniad yn arweiniad cryno iawn i Gyfoeth Naturiol Cymru, ei ddiben a'i swyddogaeth. Dilynir hyn gan olwg cyffredinol byr ar y math o weithgaredd a gyflawnir ar gyfer bioamrywiaeth yng nghyd-destun nodau'r Undeb Ewropeaidd a byd-eang. Mae hynny'n arwain at ymchwiliad i symbylyddion newid, a'u cysylltiad â'r heriau amgylcheddol ehangach a wynebir gan Gymru. Edrycha'r cyflwyniad ar sut y mae angen arddull gwahanol er mwyn cyrraedd nodau uchelgeisiol atal colli bioamrywiaeth a dirywiad ecosystemau erbyn 2020. Er yn adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol, gwireddu cyfleoedd Arddull Ecosystemol mwy cyfunol, nid yn unig er mwyn cadwraeth ecosystemau, ond er mwyn wynebu heriau eraill, hefyd. Mae cyfleoedd i gynnwys ystyriaethau bioamrywiaethol mewn penderfyniadau a gweithredoedd ledled cylch dyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Wrth wneud hynny, mae'r cyfungorff yn dechrau gosod cyfeiriad newydd yn unol â'r Arddull Ecosystemol, a'r angen i adfer hydwythedd ecosystemol, ar sail tystiolaeth. Golyga hynny ymgysylltu â phartneriaid presennol, a datblygu perthnasau gweithiol â sectorau newydd. Mae gwyddoniaeth wrth graidd yr arddull hwn, a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi Llywodraeth Cymru wrth ganfod bylchau yn yr wybodaeth, a cheisio'u llenwi. Hynny er mwyn peri bod data ar gael ar ffurf y gellir ei ddefnyddio, ac er mwyn annog y cyhoedd ac eraill i ymuno trwy wyddoniaeth ddinasyddol. Nid Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig sy'n gyfrifol am hyn, felly mae'n awyddus i weithio â grwpiau arbenigol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'r partneriaethau rhanbarthol a lleol, a'u cefnogi, er mwyn cyflawni'r rhaglen eang hon.

### Cymell cadwraeth bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemol: Y Dr Julia Jones, Prifysgol Bangor

[Cyflwyniad]

**Crynodeb**

Yn gynyddol, defnyddir ieithwedd marchnadoedd ledled y byd cadwraethol. Yn y sgwrs hon, adolygaf gysyniadau pwysig megis bancio lliniarol, digolledu bioamrywiaethol, a thalu am wasanaethau ecosystemol. Dygaf sylw at yr hyn y gallant ei gynnig, a'r peryglon y dylai'r gymuned gadwraeth fod yn ymwybodol ohonynt yn wyneb defnydd cynyddol dulliau'r farchnad ar gyfer cadwraeth yng Nghymru.

**Creu coetir fferm a phrofiadau rheoli dalgylchoedd afonydd yng nghanolbarth Cymru – cynllun Pontbren: Mike Townsend, Coed Cadw**

Cyflwyniad

**Crynodeb**

Mae Cynllun Pontbren yn arddull arloesol sy'n defnyddio rheoli coedwigoedd a phlannu coed er mwyn gwella effeithlonrwydd cadw da byw ar y bryniau. Yn 2001, daeth amaethwyr Pontbren ynghyd yn grŵp o ddeg a reolent gyfanswm o 1,000ha o dir ledled y dalgylch. Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, bu eu harloesedd yn destun ymchwil maes ynghylch budd amgylcheddol coetiroedd ffermydd. Mae coed a choetiroedd bellach yn rhan hanfodol o reoli ffermydd ym Mhontbren, gan ddangos y budd a ddaw i gadw da byw ar y bryniau, rheoli dŵr, bywyd gwyllt a'r dirwedd.

Gweithiodd cynllun Pontbren oherwydd fe'i harweiniwyd gan yr amaethwyr, a fuont yn arloeswyr gweithredol, ac a oeddent yn fodlon ac yn medru ennyn diddordeb eraill a sicrhau eu cydweithrediad.

Mae llwyddiant diymwad Pontbren, yn nhermau amaethyddol, amgylcheddol, gwyddonol a chymdeithasol, wedi rhoi gwersi hanfodol i amaethwyr a llunwyr polisïau sy'n ceisio gwell fodd cyflenwi gwasanaethau amgylcheddol hanfodol megis rhan o gadw da byw cynhyrchiol ym mryniau'r Deyrnas Unedig.

**Prosiectau pori – cysylltu rheoli er budd bioamrywiaeth gyda chynhyrchu: Hilary Kehoe, Prosiect Pori Ynys Môn**

Cyflwyniad

**Crynodeb**

Bydd y cyflwyniad yn cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos sut y mae AGAP a phrosiectau eraill ar draws y DU yn gweithio gyda ffermwyr er mwyn i'w systemau ffermio arwain at ganlyniadau ym maes cadwraeth fel rhan o fenter fferm ddichonadwy.

Bydd problemau a ddaw i ran y rhai sydd eisiau adfywio safleoedd segur ac adfer pori yn cael eu trafod, gyda rhai enghreifftiau'n dangos y camau a gymerwyd i reoli pori'n gynaliadwy.

**Trafodaeth panel gyda chyflwynwyr y bore**

**C 1 - Robin Probert, Banc Hadau Gerddi Kew, i Mike Townsend: Ydy ffermwyr yn cael problemau wrth geisio dod o hyd i ffynhonnell o goed brodorol? Ydy hadau'n cael eu casglu yn y fan a'r lle ar ffermydd?**

A1 – Mike Townsend: Ar y dechrau, roedd yna broblemau'n codi wrth geisio cael gafael ar hadau addas. Y cam cyntaf oedd cysylltu ag eraill. Un cynllun a ddeilliodd o hyn oedd tomwellt a wnaed o dorion coed, sy'n addas ar gyfer ei ddefnyddio gan ffermwyr.

**C2 – Martyn Evans, Cyngor Sir Fynwy: Oes ganddoch chi unrhyw gynlluniau ar gyfer Gwy a Wysg i ddatblygu dull tebyg i Pontbren?**

A2: Mae angen arweiniad, cefnogaeth, a mynediad at ddulliau ariannu ar gyfer mentrau o'r math yma. Mae angen mecanwaith hefyd. Bydd CNC yn edrych ar dechnegau rheoli tir ar gyfer rheoli llifogydd, a bydd yn ystyried ansawdd a maint y dŵr.

A2– Ceri Davies: Mae CNC yn edrych ar draws pob sector, yn cynnwys cyfleustodau, e.e. Hafren Trent, Dŵr Cymru, ar fentrau ar raddfa ehangach. Mecanweithiau ar gyfer arafu dŵr a chynnal ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd. Lle gallwn, mae angen i ni gyfuno mesurau gyda mecanweithiau sy'n bodoli eisoes. Mae angen i fesurau weithio ar raddfa fferm. Ar hyn o bryd, nid yw'r RDP ond yn ymdrin â'r taliad colli incwm.

**C3: Tristan Hatton-Ellis – Colli Iawndal: Mae llawer o wastraff ar fferm yn wastraff i ffermwyr hefyd.**

A3: Hilary Kehoe: Mae angen pobl ar lawr gwlad i fynd o gwmpas a rhannu arfer dda, fel sy'n digwydd gydag AGAP neu Pontbren.

**C4 – John Harold, Cyngor Gwynedd – Agweddau positif prosiect Pontbren: nid yw enillion y gellir eu hadnabod yn glir, fel Pontbren, bob amser yn darparu'r rheolaeth a'r cilfachau arbennig sydd eu hangen ar gyfer bioamrywiaeth.**

A4: Ydy mabwysiadu'r dull Ecosystem yn risg o ran colledion bioamrywiaeth? Bydd rhai ar eu hennill – ond nid pawb. Mae angen ymestyn PES (Taliadau am Wasanaethau Ecosystem) i ariannu gweithrediadau penodol yn uniongyrchol, er mwyn llenwi'r bylchau hyn. Mae angen i PES fod yn amodol i sicrhau dangos canlyniadau positif ar gyfer rhywogaethau penodol. Rhaid i fecanweithiau cefnogi fod yn hyblyg.
A4: Matthew Quinn: Mae yna gyfatebiaeth rhwng y ffocws ar ecosystemau a'r agwedd a gymerir tuag at iechyd y cyhoedd.
A4: Ceri Davies: Mae mecanweithiau ariannu tymor-byr yn aml yn arwain at fuddion tameidiog.

**C5: Anna Williams, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru: Mae gwaith Partneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn yn hynod bwysig. O ble y daw'r arian i barhau â'r gwaith hwnnw?**
A5: Hilary Kehoe: Mae cynllun ariannu PONT yn dod i ben ym mis Chwefror. Mae'n bosibl y bydd yr Ymddiriedolaeth Natur cyn cymryd PONT dan ei adain, ond nid yw hyn wedi ei benderfynu eto.
A5: Ceri Davies – Dylid ystyried cyfleoedd ariannu eraill, megis Cronfa REF. Gall swyddogion ariannu allanol CNC gynnig cefnogaeth. Gellid defnyddio'r gronfa £6m i fuddsoddi mewn cynhwysedd. Mae CNC yn edrych ar gyfleoedd ariannu gan HLF ac yn y blaen i ddarparu ariannu cyfatebol.

**C6: Colin Russell – Sut y bydd Digolledu Bioamrywiaeth yn gweithredu?**
A6: Mae yna gynlluniau llwyddiannus yn gweithredu yn yr Unol Daleithiau (Wetland Banking Scheme) ac Awstralia. Mae 3ydd parti yn sefydlu banc ac iddo fframwaith rheoleiddiol. Am bob uned o niwed a wneir gan ddatblygiad, rhaid i'r datblygwr brynu nifer penodol o gredydau i'w gwario ar

reoli gwlyptiroedd. Mae ymateb yr RSPB yn cynnwys darparu dulliau diogelu, e.e. dylai'r safle fod mor agos ag y bo modd at y safle datblygu. Dylid eithrio rhai cynefinoedd o'r digolledu, e.e. palmentydd calchfaen. Dylid nodi goblygiadau gofodol. Mae yna gydberthynas rhwng amddifadedd cymdeithasol a bioamrywiaeth gwael.

**C7: Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion – Adolygu Glastir am y tro olaf. Dylai'r Adolygiad nodi sut y cyflawnwyd llwyddiant gan Hilary Kehoe, AGAP.**

**C8: Jennifer Kelly, CNC – Gweithio gyda thirfeddianwyd – beth am y maes morol?**
A8: Gellid cyflwyno digolledu yn achos ardaloedd morol penodol a warchodir, e.e. arfer pysgotwyr Madagasgar – dangos sut y mae eu gweithredoedd yn effeithio ar gyflwr safleoedd a nodweddion morol.

**C9 – Ian Spence, Cofnodwr BSBI VC i Ceri Davies: Sut fyddwch chi'n gweithio gyda chofnodwyr i gasglu bylchau yn y dystiolaeth? A oes yna le i ni?**

A9: Ceri Davies: Oes yn wir, gan na all CNC wneud y cyfan. Mae angen i ni dynnu ar dystiolaeth i ddangos bod ein gweithredoedd yn cynhyrchu canlyniadau. Mae angen i ni rannu ein data. Rydym ar hyn o bryd yn trafod gyda Chris Lea sut y gallwn gasglu ein holl dystiolaeth. Mae menter COBWEB yn defnyddio Gwyddoniaeth y Dinesydd.

**C10: Erica Dixon, Cyngor Sir Bro Morgannwg i Julia Jones – egwyddorion digolledu. Mae ein profiad ni'n dangos nad yw hyn yn gweithio'n dda iawn yn lleol, e.e. creu pyllau madfallod y dŵr.**

A10: Julia Jones – Nid yw'r cynnydd yn yr amgylchedd gystal ag yr oeddem wedi ei obeithio; mae'n bosibl mai'r raddfa yw'r broblem.Mae cynlluniau Amaeth-amgylcheddol yn PES. Gall cynllun Digolledu Bioamrywiaeth fod yn ei le pan fyddwn wedi delio â lliniariad; y broblem yw sut i ymdrin â'r hyn sydd dros ben. Mae awydd i gynhyrchu marchnadoedd ar gyfer Digolledu Bioamrywiaeth, ond mae yna bosibilrwydd o berygl yn hyn. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i raddfa amser y buddion.

**C11– Peter Frost, CNC – Ydyn ni'n ddigon uchelgeisiol? Pam nad ydyn ni'n ymestyn esiampl Pontbren i bob dalgylch?**

A11: Mae yna nifer o rwystrau – arian, a dim digon o unigolion yn y gymuned ffermio i fynd â'r mentrau yn eu blaenau.

A11: Ceri Davies: Graddfa amser yw un rhwystr. Mae yna fwy o sicrwydd tymor-hir mewn adeilad concrid nag yn y math yma o gynllun. Mae arnom angen tystiolaeth i ddangos defnydd a gwerth gwahanol gynlluniau. Mae'r Gweinidog yn gofyn i CNC ystyried defnydd tir wrth reoli risg llifogydd.

A11: Julia Jones: Mae angen i ni gau'r ddolen, gan nad yw gweithredoedd i liniaru cost y difrod yn cael eu hysgwyddo gan y bobl sy'n talu'r gost. Mae yna fwlch mewn gwybodaeth o ran sut rydyn ni'n cynyddu'r raddfa dalgylch, o esiamplau lleol o waith positif. Byddai prosiect peilot neu brosiect mawr yn ddefnyddiol. Mae angen i reolaeth tir cynaliadwy fynd ymhellach na PES risg o lifogydd. Gellid cyflawni buddion eraill trwy PES petai'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru.

A11: Ceri Davies: Mae yna enghreifftiau o gymunedau yng Nghymru sydd eisoes yn elwa o PES, e.e. prosiect 'Greener Grangetown', Cilfach Tywyn a phrosiectau Dŵr Cymru.

**C12: Pa bryd y tynnwyd y gorchudd coed gwreiddiol ar ddaliad tir Pontbren?**

A12: David Jenkins (Coed Cymru) ar ran Mike Townsend: 289OC; ceir tystiolaeth o adeiladu ffordd Rufeinig ar draws yr ardal, lle'r oedd angen torri coed o fewn ergyd bwa a saeth y naill ochr a'r llall i'r ffordd er mwyn diogelu'r rhai oedd yn teithio arni rhag ymosodiad. Mae tystiolaeth o goedwig uchel i'w gweld o'r olion sydd wedi cwympo. Tynnwyd gwrychoedd cyfuchlin yn fwy diweddar ar draws tir a gafodd effaith negyddol ddifrifol ar ddargadwedd dŵr.

**C13/Datganiad: Diana Reynolds – meddwl yn seiliedig ar system – creu rhagor o gynlluniau tebyg i Pontbren, ond gwahanol, a chynyddu'r raddfa.**

**C14: Colin Keyse, Canolfan Genedlaethol Cadw Gwenyn Cymru – Ym mhrofiad paneli cymorth grant cymunedol, nid yw ffermwyr yn cael eu hystyried yn rhan o'r ffocws gymunedol. Fodd bynnag, mae yna gyfleoedd ar gyfer ennill ar raddfa enfawr ar draws y sectorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae tystiolaeth wedi dangos bod pobl sy'n byw ar gymorthdaliadau yn aml yn unig ac yn dioddef o straen, ond wrth weithio mewn partneriaeth gwelir fod lefelau straen yn cwympo'n ddramatig. Mae yna amharodrwydd i ganiatáu i ffermwyr reoli eu grantiau eu hunain. Fodd bynnag, mae ffermwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gyfrifol am ofalu am arian cyhoeddus, e.e. prosiect Pontbren, ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Lle bo hynny'n bosibl, defnyddir cysylltiadau â chyflenwyr a chontractwyr lleol. Mae'n bwysig ychwanegu buddion cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â bioamrywiaeth, i gefnogi cynlluniau yn y dyfodol. Mae angen i ni fesur y newidiadau a ddaw yn sgil prosiectau, a rhannu'r canlyniadau mor eang â phosib.**

Matthew Quinn: Sylwadau wrth gloi – Mae angen i ni boeni llai am risg, a symud ymlaen. Dylid adeiladu hyblygrwydd i mewn i gynlluniau, yn ogystal â galluogi pobl i wneud pethau mewn ffordd wahanol.

## Peilliwyr trefol yn nhirwedd y DU – eu hecoleg a'u cadwraeth: Y Dr Katherine Baldock, Y Prosiect Peillwyr Trefol, Prifysgol Bryste

**Cyflwyniad**

**Crynodeb**

Mae peilliwyr yn darparu gwasanaeth ecolegol hanfodol trwy beillio cnydau a blodau gwylltion. Yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, cafwyd gwybod am ddirywiad grwpiau peilliwyr pwysig. Mae canfod moddion gwella amgylchiadau ar gyfer peilliwyr yn her fawr. Ledled y byd, mae amgylcheddau trefol ar gynnydd, a gallai gwerddonau llawn blodau, yng nghynefinoedd trefol nad ydynt, fel arall, yn denu peilliwyr, gynnal niferoedd helaeth ohonynt.

Yn yr astudiaeth genedlaethol hon, a arianwyd gan Fenter Peilliwyr Pryfedaidd y Deyrnas Unedig, rydym yn pwyso ac yn mesur gwerth cynefinoedd trefol y Deyrnas Unedig ar gyfer peilliwyr pryfedol. Bydd y cynllun yn ateb tri chwestiwn: 1. Sut mae bioamrywiaeth peilliwyr cynefinoedd trefol yn cymharu â thir amaeth a gwarchodfeydd natur? 2. Ple mae prif ganolfannau amrywiaeth peilliwyr mewn ardaloedd trefol? 3. Sut allwn helpu cadwraeth peilliwyr mewn ardaloedd trefol?

Er mwyn mynd i'r afael â'r ddau gwestiwn cyntaf, rydym yn defnyddio dull rhwydwaith ymwelwyr â blodau er mwyn samplo ymwelwyr â blodau, y blodau yr ymwelant â nhw, a'r rhyngweithredu rhyngddynt yn amryw gynefinoedd trefol ac annhrefol ledled y Deyrnas Unedig. Er mwyn mynd i'r afael â'r trydydd cwestiwn, rydym yn cynnal arbrawf ar raddfa genedlaethol, a olyga plannu pymtheg dôl flodeuog fawr yr un ym Mryste, Reading, Leeds a Chaeredin, a phrofi eu heffaith ar amrywiaeth a thwf poblogaeth peilliwyr.

Crynhoaf brif ganfyddiadau cyfnod cyntaf y cynllun, gan gymharu peilliwyr ardaloedd trefol, tir amaeth a gwarchodfeydd natur, ac amlinellu ymchwil presennol yr ail gyfnod a'r trydydd.

Mae'r cynllun yn gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr cadwraeth cynghorau lleol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, ac amcana roi i ymarferwyr yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen ar gyfer cadwraeth peilliwyr mewn trefi a dinasoedd.

## Gwastadeddau Byw – cadwraeth ar raddfa tirwedd yn ymarferol; John Clark, Partneriaeth Gwastadeddau Gwent/RSPB Cymru

[Cyflwyniad]

**Crynodeb**
Esboniad o broses raddol sefydlu cynllun partneriaeth cadwraeth ar raddfa dirweddol. Amcana'r cynllun "Morfeydd Byw" ganolbwyntio ar dri man braenarol ym Morfa Gwent, gan wella cydgysylltedd ecolegol a buddion bioamrywiaethol. Gwneir hyn trwy gyfuniad o weithredu ymarferol yn y maes, a gwaith partneriaethol ar raddfa Cyrff Anllywodraethol a'r Llywodraeth er mwyn ymgysylltu â thirfeddianwyr, cymunedau lleol a busnesau ynghylch etifeddiaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog Morfeydd Gwent.

Y prif bartneriaid yw Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Y Gymdeithas Frenhinol Er Gwarchod Adar (CFGA) Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda chyngor Bwrdd Draeniad Mewnol Morfeydd Gwent a Gwynllŵg, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg a Gwent, CADW a'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn

## Mapio cyfleoedd rhwydweithio ecolegol; enghreifftiau o Dde Cymru a Dorset: Dr Katie Medcalf, Environment Systems

[Cyflwyniad]

**Crynodeb**
Cyflwyniad i fethodoleg mapio rhwydweithiol, a'i berthynas â mapio nwyddau a gwasanaethau ecosystemol eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr tan fethodoleg SCCAN CNC.

Cyflwynir enghreifftiau gwirioneddol o dde Cymru a Dorset, er mwyn cael amgyffrediad o werth cudd ecosystemau, a lle orau mae gwneud gwaith ecosystemol o ran adeiladu ar rwydweithiau presennol er mwyn amlhau budd

## Tystiolaeth ar gyfer Dull yr Ecosystem:- Safbwynt Canolfan Cofnodion Lleol: Roy Tapping, Cofnod /Canolfannau Cofnodion Lleol Cymru

### Cyflwyniad

Cyflwynodd Roy sgwrs gyda chefnlen o luniau. Gellir cael trawsgrifiad llawn o'r sgwrs trwy gysylltu â Roy Tapping.

### Crynodeb

Bydd unrhyw un sydd wedi astudio agweddau ar Ecoleg yn gwybod beth yw "Ecosystem", ond beth sydd a wnelo hwnnw â chysyniad "Modd Ecosystemol"? I lawer o gofnodwyr maes gwirfoddol, sy'n aml yn arbenigwyr yn eu maes bywydegol, bydd hwn yn gysyniad estron nad yw, yn aml, yn golygu fawr ddim iddynt. Eto, gofynnir i'r union bobl hyn gasglu peth o'r wybodaeth a fydd o gymorth i reoli a chadw golwg ar ein hecosystemau. Sut mae newid y sefyllfa hon, gan gasglu'r wybodaeth y mae arnom ei hangen mewn modd pwrpasol a threfnus? Bydd y cyflwyniad hwn yn awgrymu ffordd ymlaen, ac yn peri inni, gobeithio, gnoi cul ynghylch sut y gallwn gasglu a defnyddio tystiolaeth yn well, gan ddilyn egwyddorion y "Modd Ecosystemol"

### Sylwadau'r Cadeirydd wrth ddirwyn y cyfarfod i ben

Diolchodd Mathew Quinn i Alys Morris ar ran y bartneriaeth am ei holl waith caled dros y tair blynedd ddiwethaf, a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd yn yr Athrofa Ymchwil Datblygu Cynaliadwy, Caerdydd.
Diolchodd Matthew hefyd i'r holl siaradwyr, y cyfranwyr a'r mynychwyr am sicrhau llwyddiant y gynhadledd. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn cymryd yr agenda o ddifrif, a bod yna gyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y gynhadledd mewn perthynas â chynllunio amgylcheddol ac integreiddiad yn y dyfodol. Anogodd y Cadeirydd y mynychwyr i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif, a pharhau'r ddeialog gyda Phapur Gwyn Bil yr Amgylchedd a Chynllunio Adnoddau Naturiol, sydd ar y gweill.

# Sesiynau Gweithdy

**Y diwrnod cyntaf**

## Defnyddio ymarferol ar fapiau rhwydwaith cynefin wrth gynllunio gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth dirol. Jim Latham a Jan Sherry, Cyfoeth Naturiol Cymru

Aeth y gweithdy hwn ar drywydd syniadau a gyflwynwyd mewn sgwrs a gafwyd yn gynharach yn ystod y gynhadledd, ac roedd yn gyfle i drafod y modd y caiff mapiau rhwydweithiau eu defnyddio'n ymarferol ac i ystyried enghreifftiau penodol. Roedd detholiad o fapiau papur ar gael ac roedd modd hefyd cael mynediad i System Wybodaeth Ddaearyddol ar gyfer gwaith 'archwilio' amser real os oedd angen. Bu'r gweithdy yn annog pobl i ymwneud â'r mapiau, gan ganolbwyntio ar ddeall y dibenion y gellir (ac na ellir) defnyddio'r mapiau ar eu cyfer a chanolbwyntio ar ddatblygu syniadau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd.

Yn anffodus, cafodd y gweithdy ei lesteirio oherwydd absenoldeb un o'r arweinwyr a oedd yn sâl ac oherwydd problem dechnegol a olygodd nad oedd modd rhoi'r cyflwyniad rhagarweiniol na chyfarwyddiadau'r gweithdy yn llawn*. Er hynny, cafwyd rhywfaint o drafod cynhyrchiol o amgylch y bwrdd, a chaiff rhai o'r prif bwyntiau a ddeilliodd o'r trafod hwnnw eu cyflwyno isod. Mae'r mapiau rhwydweithiau'n cael eu datblygu a'u mireinio'n barhaus, a bydd yr adborth defnyddiol yn cael ei ystyried.

Y prif bwyntiau:

- Deallodd y cyfranogwyr y cysyniad sy'n sail i'r rhwydweithiau (yn dilyn rhywfaint o hyfforddiant byrfyfyr!) a chafwyd trafodaeth dda ynghylch eu hystyr a'r graddau y gallai llinellau ar fapiau fel hyn gynrychioli'r prosesau ecolegol: ceir cydbwysedd anorfod rhwng cymhlethdod a defnyddioldeb.

- Gwerthfawrogwyd bod rhwydweithiau'n helpu i dynnu sylw at y rhyngweithio sy'n digwydd rhwng cynefinoedd, er enghraifft drwy ddangos bod cynefinoedd yn gallu cyfannu ei gilydd a chyfrannu at gysylltedd ei gilydd; gall unrhyw fannau lle mae rhwydweithiau'n gorgyffwrdd â'i gilydd fod yn fannau pwysig o ran bioamrywiaeth (er enghraifft, ffridd).

- Cafwyd llawer o awgrymiadau ynghylch haenau ychwanegol y gellid eu defnyddio ar y cyd â mapiau rhwydweithiau cynefinoedd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ymarferol. Roedd yr haenau hynny'n cynnwys: gwybodaeth am dirfeddianwyr a chyflwr cynefin, gwybodaeth gynllunio a gwybodaeth am briddoedd, daeareg, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, topograffi, microhinsawdd a dynodiadau.

- Pwysleisiodd llawer yr angen am gafeatau ar y mapiau, a thynnodd llawer sylw at beryglon, er enghraifft, defnyddio mapiau coetiroedd yn ddigwestiwn fel 'ardaloedd i'w plannu'. (D.S. rydym yn ymwybodol iawn o'r problemau hyn, ac rydym yn ceisio pwysleisio rhychwant a chyfyngiadau'r mapiau.)

- Dylid sicrhau bob amser bod gwaith maes yn cael ei gyflawni, bod arolygon yn cael eu cynnal a bod tirfeddianwyr yn cael eu cynnwys pan ddefnyddir y mapiau hyn i lywio penderfyniadau gwirioneddol ar lawr gwlad. Byddai cael cyfarwyddyd ynghylch 'proses' yn ddefnyddiol.

- Cafwyd amryw awgrymiadau ynghylch agweddau ecolegol sydd ar goll o'r mapiau, neu syniadau ynghylch eu datblygu. Roedd yr agweddau hynny'n cynnwys: rhywogaethau unigol, gwrychoedd, heterogenedd o fewn cynefinoedd, coetir hynafol, a phorfa coetir.

*Diolch: diolch yn fawr i Katie Medcalf am gamu i'r adwy i helpu i hwyluso a chofnodi'r trafod.

## Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru – cyd-destun a chamau nesaf tua datblygu strategaeth, Dai Harris, Llywodraeth Cymru

### Cyflwyniad:

Mae Cymru wedi ymrwymo i Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd (SBUE) a thargedau cysylltiedig ar gyfer 2020, gan ymateb i dargedau Aichi, a osodwyd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol. Rhaid i Gymru, fel rhan o'r ymrwymiad hwn, sefydlu ei Strategaeth Bioamrywiaeth ei hun erbyn 2015 i helpu atal colli bioamrywiaeth a, lle bo modd, gwyrdroi'r dirywiad erbyn 2020. Amlygwyd y dirywiad rhywogaethau a chynefinoedd gan yr adroddiad Cyflwr Natur diweddar, ac mae Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r problemau hyn, fel y cyhoeddwyd yn yr uwchgynhadledd yn Sioe Frenhinol Cymru.

### Amcanion y gweithdy:

Ategu'r gwaith a sbardunwyd gan Fwrdd Strategol Bioamrywiaeth Cymru i glustnodi blaenoriaethau bioamrywiaeth yng Nghymru a dulliau cyrraedd ein nodau.

- Adeiladu ar ganlyniadau gweithdy Bwrdd Strategol a gynhaliwyd ym mis Mehefin
- Ymchwilio i sut y gellir prif-ffrydio bioamrywiaeth wrth ddod i benderfyniadau beunyddiol
- Ymchwilio i'r modd y gallwn gydweithio i sicrhau'r newid sylweddol angenrheidiol ar gyfer cael rheolaeth gwirioneddol gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol
- Defnyddio canlyniadau i ddatblygu rhagor ar Cynllun Adfer Natur ar gyfer Cymru

### Sesiynau a hwyluswyd:

- Diffinio canlyniadau / pennu blaenoriaethau – Dai Harris (LLC)
- Prif-ffrydio Bioamrywiaeth – Caryn Le Roux (LLC)
- Sicrhau newid sylweddol – Diana Reynolds (LLC)

### Adborth o'r sesiynau:

### Cwestiwn 1: Diffinio canlyniadau/pennu blaenoriaethau:

- -Cymru'n cyflawni ei hymrwymiadau bioamrywiaeth gartref, yn Ewrop ac yn fyd-eang
- -ecosystemau iach sy'n gweithio ac sy'n gadarn
- -peidiwch â gwastraffu arian ar achosion ofer

- -gwerth am arian - peidiwch â thaenu'r arian yn rhy denau
- -dynodi meysydd bioamrywiaeth uchel (gan gynnwys safleoedd morol)
- -agwedd cyffredinol yn erbyn agwedd arbenigol
- -cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n ateb y gofyn
- -cysylltedd
- -creu gofodau gwell ac ehangach ar gyfer natur
- -targedau cyraeddadwy, mesuradwy
- -rhaglen arolygu tymor hir
- -yr hyn sy'n 'digon da'
- -gofalu wrth ddewis gwaelodlinau (e.e. defnyddio dwysedd rhywogaethau fesul cilomedr2 )
- -mapio gwely'r môr

## Cwestiwn 2: Prif ffrydio bioamrywiaeth:

- -defnyddio delweddau/adar eiconig a rhywogaethau eraill fel cyfrwng cyfathrebu
- -ei wneud yn berthnasol i wahanol gynulleidfaoedd, heb fod yn rhy negyddol
- -cwricwlwm- yn yr awyr agored - profiadol - model Ysgolion Coedwig/Eco ysgolion
- -arddangosiad
- -perchenogaeth a balchder lleol
- -y manteision wedi'u lleisio – dolennau cyswllt o rywogaethau/cynefinoedd i systemau/prosesau cynnal bywyd – beth mae bioamrywiaeth yn ei wneud i chi? (asiantaethau hysbysebu)
- -dolen gyswllt â busnesau e.e. datblygu cynaliadwy, ffermio sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt

### Cwestiwn 3: Sicrhau newid sylweddol:

Ambell air (o brif araith) y Gweinidog, Alun Davies

- Osgoi anelu bys a beio eraill
- Byddwch yn fawrfrydig â sawl nad ydym wedi cytuno â hwy eisoes
- Byddwch yn hirben ac yn uchelgeisiol
- Gweithredwch; nid geiriau'n unig
- Gadewch y gynhadledd/cyfarfod/ayyb, yn benderfynol o gyflawni rhywbeth

## Canlyniadau'r gweithdai:

-Gwrando.
-Nid yw'r model Datblygu Cynaliadwy'n gweithio. Gwrando ar eich gilydd a chysylltu ein heriau
-Mae gennym gyfoeth o adnoddau a gwybodaeth; gwrando arno a'i ddefnyddio
-Cydnabod yr hyn rydym yn ei werthfawrogi ynghylch bod yng Nghymru a'n gilydd
-Creu cysylltiadau rhwng pobl a lleoedd gwahanol e.e. trefol a gwledig
-Dealltwriaeth
-Cydrannu'r hyn a wyddom
-Dysgu gan ein gilydd
-Yn y gorffennol, ni ddeallasom wir gost cael gwasanaethau o'r amgylchedd; deall a gweithredu ar hyn nawr
-Gwneud penderfyniadau anodd, deallus sy'n sicrhau canlyniadau

-Croesawu risg fel dull dysgu
-Tynnu sylw at bwyntiau a lleoedd diddorol, e.e. celf ar lwybr yr arfordir
-Blaengaredd
-Edrych ar heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gyfle i gydbwyso, nid gwrthdaro
-Meddwl yn ddyfeisgar ynghylch sut i greu cynefinoedd yn rhan o bob gweithgaredd o’r cychwyn
-Canfod dulliau manteisio ar gysylltedd cenedliadol pobl â’r tir sydd’n cynyddu’u cysylltiad â’r amgylchedd
-Annog, yn hytrach na gorchymyn y canlyniad
-Cynnwys arolygu call

## Defnyddio modelau addasrwydd cynefinoedd er mwyn blaenoriaethu arolygu a chadwraeth mamaliaid yng Nghymru: astudiaethau achos o lygod y gwair, ystlumod trwyn pedol lleiaf, ystlumod prin coetiroedd, a llygod y dŵr. Jean Matthews a Liz Halliwell, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Crynodeb:**
Cyflwynodd y gweithdy hwn y modelau addasrwydd cynefin, ar raddfa tirwedd, a luniwyd yn ddiweddar ar gyfer mamaliaid dethol yng Nghymru. Canolbwyntiodd ar sut y lluniwyd y modelau, a sut y gellir eu defnyddio i gyflawni blaenoriaethu gweithredu arolygol a chadwraethol. Anogodd y gweithdy’r rhai yno i awgrymu syniadau ar gyfer gweithredu lleol, trwy glustnodi cynlluniau dichonol, a thrafodwyd yr adnoddau sydd ar gael (arian a deunyddiau). Roedd y gweithdy ar gyfer y rhai sydd â rhan yng ngweithredu cynlluniau lleol a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

**Adroddiad y gweithdy:**
Ar gyfer ystlumod, disgrifir dau fodel rhagfynegol. Deilliodd mapiau addasrwydd cynefin yr ystlum trwyn pedol lleiaf o’r cynllun “Tirweddau ar gyfer ystlumod trwyn pedol lleiaf”. Amcana hyrwyddo cynlluniau cadwraeth ar raddfa dirweddol a fyddant o fydd i’r rhywogaeth hynod warchodedig hon, gan ystyried, hefyd, rywogaethau neu gynefinoedd a allent gael budd o’r un gweithrediadau cadwraeth: rheoli gwrychoedd yn darparu coridorau ar gyfer ystlumod a chynefin ar gyfer pathewod, e.e. Diben Cynllun Ystlumod Prin Coetiroedd yw helpu cyfeirio ymdrech arolygol gwirfoddolwyr, a darparu hyfforddiant ac adnoddau, gan arwain at well data dosbarthiad a chyngor penodol ynghylch rheoli cynefinoedd. Cyhoeddwyd cyfres o fapiau, yn dangos ardaloedd o bwys hanfodol i lygod y dŵr, gan yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.

Cyflwynwyd mapiau a ddatblygwyd i glustnodi cynefinoedd addas ar gyfer llygod yr yd, ystlumod trwyn pedol lleiaf, ac ystlumod prin coetiroedd Cymru yn y gweithdy. Esboniwyd sut y datblygwyd y mapiau, a’r cafeatau cysylltiedig. Trafodwyd cyfleoedd i wella’r mapiau, ac awgrymwyd y gallai diweddaru’r mapiau yn y dyfodol ddefnyddio newidynnau amgylcheddol ychwanegol, yn debyg i arddull Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid er mwyn cynhyrchu mapiau statws cadwraeth ffafriol ar gyfer madfallod cribog mwyaf, a chanfod cyfleoedd creu coridorau cynefin. Trafodwyd defnyddio mapiau hanesyddol megis dull darparu gwaelodlin, yn erbyn pa un y gellid mesur ennill neu golli cynefin.

Gellir defnyddio’r holl fodelau i helpu canolbwyntio’r ymdrech gadwraethol, a goleuo’r rhai sy’n penderfynu sut y dylid defnyddio tir. Mae llawer i’w ennill trwy ddefnyddio arddull gyffelyb ar gyfer

gwahanol taxa. Pwysleisiwyd fod angen adborth y rhai sy'n defnyddio'r mapiau. Croesawodd y rhai oedd yn y gweithdy'r adnoddau a ddarparwyd. Perir bod rhagor o gopïau o adroddiadau a chyno ddisgiau ar gael.

Jean Matthews a Liz Halliwell,
Ecolegwyr Mamaliaid,
Cyfoeth Naturiol Cymru

## Dulliau newydd o wireddu camau gweithredu ar safleoedd Natura 2000, Kathryn Hewitt, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Cyflwyniad Gweithdy**

Ar ddechrau'r gweithdy cafwyd cyflwyniad gan dîm Rhaglen Natura 2000 LIFE, a dynnodd sylw at rai dulliau newydd o reoli ac adfer cadwraeth, sy'n dod o bob cwr o'r byd. Yna, gofynnwyd i'r sawl a oedd wedi mynychu'r gweithdy am eu syniadau ynghylch systemau ariannu a rheoli newydd y gellid eu defnyddio i wella cyflwr nodweddion o ran rhywogaethau a chynefinoedd ar safleoedd Natura 2000 yng Nghymru.

**Syniadau ynghylch systemau ariannu a rheoli newydd - 'Cronfa Syniadau'**

**Trwydded ffermio ar safleoedd Natura 2000**
Trwyddedu gweithgarwch ffermio gan ddefnyddio Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fel ardaloedd peilot.

**Cynllun hyfforddiant i ffermwyr**
Hyfforddiant rhad ac am ddim i ffermwyr ynghylch dulliau ffermio sy'n arwain at gadwraeth a chynnyrch sy'n garedig i fywyd gwyllt.

**Cynlluniau rheoli a gaiff eu sbarduno gan ganlyniadau**
Mae'r angen i fodloni amodau penodol y cytunwyd arnynt yn rhan o gynllun rheoli neu gynllun amaeth-amgylcheddol wedi arwain at broblemau megis tanbori a gorbori, gan nad yw'r amodau'n gallu ystyried amrywiadau tymhorol, amrywiadau o ran tywydd ac amrywiadau naturiol eraill. Byddai cytundebau a gaiff eu sbarduno gan ganlyniadau'n fwy llwyddiannus. Mae'r dull hwn o weithredu yn gofyn am ymgynghorwyr da, ac mae'n arwain at broblemau o ran sut y byddai canlyniadau'n cael eu mesur?
Mae hefyd yn gofyn am well cyfathrebu â ffermwyr ac mae'n gofyn am newid diwylliannol gan gyrff cadwraeth, er enghraifft, newid y termau a ddefnyddir gennym.
Mae hwn yn rhyw ddull o dalu am wasanaethau ecosystemau.

**Symleiddio gwaith rheoleiddio**
Mae'r nifer fawr o reoliadau'n rhwystro gwaith rheoli oherwydd mae'n bosibl na fydd y tirfeddiannwr yn gwybod am y ddeddfwriaeth neu na fydd yn ei deall, sy'n golygu na fydd dim yn cael ei gyflawni rhag ofn y bydd yn gwneud camgymeriad. Mae angen symleiddio gwaith rheoleiddio.
Gall hynny fod yn broblem arbennig ar dir comin.

**Marchnata cynnyrch lleol**
Rhaid bod marchnata cynnyrch lleol, neu gynnyrch o safleoedd neu ddalgylchoedd, yn allweddol.
Gall cwmnïau cydweithredol ffermwyr gyflawni'r gwaith marchnata.
Un enghraifft dda yw cig oen morfa heli, o ddefaid sydd yn eu cynefin ar y forfa. Ond mae'r farchnad yn tueddu i fod yn un leol.
Hyrwyddo arallgyfeirio yn ein harferion bwyta – byddai bwyta cig ceffyl o fudd i'r ucheldiroedd!

**Prosiectau pori sy'n golygu cael gafael ar stoc**
Mae angen system arnom er mwyn gallu cael gafael ar stoc i reoli ardaloedd sydd wedi eu hesgeuluso.
Gellid defnyddio'r Taliad Sengl i gynorthwyo porwyr. Ni chaiff y Taliad Sengl ei hawlio gan y tirfeddiannwr (e.e. corff cadwraeth) a chaiff ei drosglwyddo i'r porwr, sy'n golygu bod pori tir israddol yn fwy ymarferol.
Gellid defnyddio grwpiau Leader y Cynllun Datblygu Gwledig i helpu i farchnata cynnyrch a threfnu bod modd cael gafael ar stoc.

**Ymchwil a thechnolegau newydd**
Mae angen arloesedd ac ymchwil arnom i ddatblygu a hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau newydd er mwyn, er enghraifft, defnyddio bio-màs o safleoedd bywyd gwyllt i gynhyrchu cynnyrch sy'n seiliedig ar fiocarbon.
E.e. cynaeafu ardaloedd o Molinia wrth ymyl Elenydd i gynhyrchu cynnyrch biocarbon.

Yna dewisodd y grŵp un system i'w thrafod yn fanylach, gan archwilio'r manteision a'r cyfyngiadau. Dyma'r pwnc a ddewiswyd:

**Addysg wedi'i thargedu / Cynllun hyfforddiant i reolwyr tir a ffermwyr**

| Manteision | Cyfyngiadau |
|---|---|
| Byddai'n ein galluogi i gyflawni amcanion drwy gyfathrebu'n briodol. | Nid oes digon o arbenigwyr addysg yn y sector cadwraeth, a cheir diffyg sgiliau cyfathrebu. |
| Gellir cyflawni amcanion penodol drwy bennu ffocws y prosiectau'n ofalus. | Mae'r dull hwn o weithredu yn gofyn am lawer iawn o adnoddau, a phrin yw'r adnoddau sydd ar gael. |
| Gallwch ddefnyddio systemau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes neu wirfoddolwyr. | Mae angen defnyddio amrywiaeth eang o systemau cyfathrebu. |
| Mae angen adolygu cynlluniau blaenorol a weithiodd a defnyddio'r gwaith hwnnw'n sail ar gyfer cynlluniau newydd. | Mae angen deall y systemau mwyaf effeithiol ar gyfer cyfathrebu â ffermwyr. |

| | |
|---|---|
| | Mae angen llawer o gefnogaeth ac mae angen ymgynghorwyr da. |
| | Efallai mai prosiectau byrdymor fydd prosiectau addysg. |
| | Mae'r iaith a'r cysyniadau'n rhy dechnegol ac mae angen eu cyfleu mewn Cymraeg/Saesneg clir. |
| | Ceir risg y gallai pobl gael eu trin yn nawddoglyd. |

**RHAGLEN LIFE NATURA 2000 AR GYFER CYMRU**
**Arddulliau newydd ar gyfer rheoli a noddi Natura 2000**

*Ceir isod sawl enghraifft o ddulliau newydd, tan benawdau bras, a ganfuwyd gan Raglen Natura 200 LIFE.*

| MATH O DDULL | ENGHREIFFTIAU | FFYNONELLAU GWYBODAETH |
|---|---|---|
| **Masnachu a Labelu Cynnyrch** | • Masnachu a labelu Gwarchodfa Biosffer Rhön, Yr Almaen<br>• Masnachu a labelu Gwarchodfa Biosffer Entlebuch, Y Swistir<br>• Safon amgylcheddol pysgota cynaliadwy'r Cyngor Stiwardiaeth Forol | http://www.bfn.de/fileadmin/MDB/documents/themen/internationalernaturschutz/2011-AfriBR-14-Pokorny_Rhoen.pdf<br>http://www.biosphaere.ch/de/regionale-produkte |
| **Dulliau Cyfreithiol a Rheoleiddiol Newydd** | • Rhaglen trwydded rheoli erydu glannau'r môr, Yr Unol Daleithiau<br>• Rheoleiddio ansawdd awyr, Sweden<br>• Rhesymoli a symleiddio deddfwriaeth amgylcheddol – Bil yr Amgylchedd, Cymru (i ddod i rym yn 2015)<br>• Rheoliadau arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â rhywogaethau estron ymledol. | http://www.dec.ny.gov/permits/6064.html<br>http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-bill/?lang=en<br>http://ec.europa.eu/environment/nature/invasivealien/ |
| **Trethu ac Ardolli** | • Gwrthbwyso Bioamrywiaethol yn Lloegr. Cynllun Braenaru Essex, e.e.<br>• Cynllun Cymhelliad Treth Eithriad Amodol (Treth Etifeddiant)<br>• Defnyddio cytundebau Adran 106 ar gyfer rheoli N2K. ACA Caeau Mynydd Mawr<br>• Ardollau ymwelwyr/twristiaeth<br>• Hawddfreintiau Cadwraeth | http://www.essex.gov.uk/Environment%20Planning/Environmental-Issues/local-environment/Wildlife-and-Biodiversity/Documents/Comprehensive_guide_to_offsetting.pdf<br>http://www.hmrc.gov.uk/heritage/exemption.htm<br>http://www.carmarthenshire.gov.uk/English/environment/planning/Planning%20Policy%20and%20Development%20Plans/Local%20Development%20Plan/Documents/Draft%20SPG%20Caeau%20Mynydd%20Mawr%20SAC.pdf |
| **Taliadau am Wasanaethau Ecosystemol** | • SCAMP (Sustainable Catchment Management Programme) yn Bowland Fells, Sir Gaerhirfryn<br>• Natur LIFE: Adfer gorgors weithredol yn ACAau Berwyn a Migneint<br>• Cynllun arddangos TWE Fowey<br>• Cyfliniad rheoledig Wareham<br>• Cynllun adfer corsydd Môr Aral | http://corporate.unitedutilities.com/scamp-index.aspx<br>http://www.blanketbogswales.org/<br>http://ekn.defra.gov.uk/resources/programmes/pes-pilots/fowey/ |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cyfliniad rheoledig dalgylch Tamar<br>• Ailgysylltu'r Broads a'r Fens | |
| **Addysgu Aneledig a Chodi Ymwybyddiaeth** | • Cynllun Caru'ch Llynnoedd: Lleihau ffosffad yn nalgylchoedd llynnoedd Bassenthwaite a Windermere. | http://www.bassenthwaite-lake.co.uk/<br>http://issuu.com/amymcloughlin/docs/love_your_lakes_report_2011?e=2940830/3198061<br>http://www.windermere-reflections.org.uk/projects/choices-for-a-greener-future/ |
| **Arall** | • Ecodwristiaeth<br>• Rheoli ar sail ecosystem | http://www.ecotourism.org/what-is-ecotourism<br><br>http://en.wikipedia.org/wiki/Ecosystem-based_management |

## Rhywogaethau ymledol estron – delio ag ochr arall “cysylltedd”. PBC Grŵp rhywogaethau estron ymledol

### Trosolwg o'r gweithdy

Rhywogaethau estron goresgynnol yw un o'r bygythiadau mwyaf i fioamrywiaeth, ac maent yn esgor ar effeithiau economaidd a chymdeithasol sylweddol. 'Cysylltedd' mewn cyd-destun economaidd a chymdeithasol yn ogystal â chyd-destun ecolegol yw'r rheswm pam y mae rhywogaethau estron goresgynnol yn gymaint o broblem. Mae'r ffordd orau o ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol yn cael sylw cynyddol drwy ddatblygiadau diweddar sy'n cynnwys offeryn deddfwriaethol posibl gan yr Undeb Ewropeaidd, adolygiad o Strategaeth Prydain Fawr ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol ac Ymchwiliad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddodd cyflwyniadau'r gweithdy sylw i'r rhain yn ogystal â datblygiadau penodol o ran y tir, y môr a dŵr croyw, sy'n ymwneud â bioddiogelwch, rheoli llwybrau a chodi ymwybyddiaeth. Yna, bu sesiynau'r gweithdy yn archwilio'r heriau neu'r rhwystrau i weithredu'n fwy cydlynus yng nghyswllt rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru, a'r modd y gellid mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau hynny – mae'r tablau isod yn crynhoi canlyniadau'r sesiynau.

**Prif bwyntiau'r cyflwyniadau**

**Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn pryderu ers amser am effaith wirioneddol ac effaith bosibl rhywogaethau estron goresgynnol. Amcangyfrifwyd bod rhywogaethau estron goresgynnol yn costio o leiaf £1.8 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn, a'u bod hefyd yn bygwth bywyd gwyllt ac ecosystemau brodorol. Mae cynnydd mewn masnach, symudiadau pobl, y newid yn yr hinsawdd ac agosrwydd daearyddol yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn croesawu strategaeth gydlynus gan yr Undeb Ewropeaidd i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol.
- Pan gafodd Strategaeth Fframwaith Prydain Fawr ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol ei lansio yn 2008, ymrwymodd y Llywodraeth i'w hadolygu ar ôl 5 mlynedd. Mae'r adolygiad yn ymdrin â nodau strategol a threfniadau llywodraethu ac mae'n ceisio rhoi'r Strategaeth mewn cyd-destun rhyngwladol eang.
- Bydd angen i'r broses o reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig sicrhau bod strategaethau rheoli er mwyn darparu ecosystemau cydnerth yn cynnwys camau i ystyried y bygythiad a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol ac yn ymgorffori strategaethau i reoli rhywogaethau goresgynnol lle bynnag y bo modd.

**Cyswllt - Dave Thomas, Pennaeth Hadau a Phlaladdwyr, Llywodraeth Cymru**
david.thomas4@wales.gsi.gov.uk

**Y prif bwyntiau ynghylch y tir**

- Mae llawer o'r prif rywogaethau estron goresgynnol sy'n peri problem wedi hen ymsefydlu ac i'w gweld yn eang ledled Cymru, er enghraifft y rhododendron ponticum a'r wiwer lwyd.
- Mae ein tirwedd yn darparu cysylltedd sy'n caniatáu i rywogaethau symud. Mae hynny'n rhywbeth cadarnhaol i'n rhywogaethau brodorol ond mae hefyd yn caniatáu i rywogaethau estron symud.
- O safbwynt y camau a gymerir i reoli'r effeithiau:
  - Mae angen iddynt fod **ar raddfa'r dirwedd**
  - Mae **dalgylchoedd** yn raddfa briodol i weithio arni, a cheir enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus

    - Mae angen ymwneud â **phobl sy'n berchen ar lawer o dir** er mwyn cydlynu camau gweithredu
    - Mae angen **partneriaethau**
    - Mae angen **gweithredu dros gyfnod hir (yn hytrach na gweithredu unwaith yn unig)**
    - Mae angen gwneud gwaith **monitro**
- Beth y gallem ei wneud yn well?
    - Cofnodi rhywogaethau goresgynnol
    - Codi ymwybyddiaeth – ymhlith y cyhoedd a fesul sector
    - Arweiniad cyfannol
- Goruchwylio ein ffiniau
- **Mae atal problemau yn rhatach, yn haws ac felly'n well na cheisio datrys problemau**
- **Piserlys America**
- **Cacynen feirch Asia**
- **Ymdeithiwr y derw**

Cyswllt - Chris Tucker, Swyddog Bioamrywiaeth a Threftadaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru
chris.tucker@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

### Y prif bwyntiau ynghylch y môr

- Nod y Prosiect Llwybrau Morol yw gwarchod bioamrywiaeth a diwydiant y môr drwy reoli'r llwybrau sy'n galluogi rhywogaethau estron goresgynnol morol i ymledu ar draws moroedd y DU ac Iwerddon.
- Mae'r prosiect yn cynnwys sawl partner, a dros y 2 flynedd nesaf bydd yn sefydlu ac yn treialu rhwydweithiau rhybuddio cynnar – ar y tir a'r môr, yn comisiynu gwaith i fireinio'r data sydd gennym eisoes am y mannau sy'n peri problem, am y cludwyr ac am waith sganio'r gorwel, yn gweithio gyda diwydiant i ddatblygu codau ymarfer ar gyfer gweithredwyr marinâu a defnyddwyr cychod hamdden, yn sefydlu prosiectau cofnodi gan wirfoddolwyr, ac yn cynnal prosiectau arddangos ar reoli rhywogaethau morol goresgynnol.
- Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers 2010 i reoli'r chwistrell fôr garped yng Nghaergybi yn y gogledd. Mae'r gwaith a wneir yn ymwneud â rheoli achosion bach erbyn hyn yn hytrach na digwyddiadau a gynhelir ar raddfa fawr i ddileu'r rhywogaeth. Mae papur ynghylch y gwersi a ddysgwyd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd.
- Mae prosiect ar wahân ar y gweill i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu angorfa o'r neilltu i drin cyrff cychod pan fyddant yn cyrraedd/gadael y marina.

Cyswllt - Gabe Wyn, Arweinydd y Tîm Ecosystemau Rhynglanwol ac Arfordirol, Cyfoeth Naturiol Cymru gabrielle.wyn@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

### Y prif bwyntiau ynghylch dŵr croyw

- Gall fod yn anodd iawn rheoli'r rhywogaethau, gallant ymledu'n gyflym a gallant gyrraedd lefelau uchel iawn o ran dwysedd, h.y. gan fynd yn drech na bioamrywiaeth dyfrol brodorol a lleihau gwasanaethau ecosystemau (e.e. difwyno cychod, rhwystro dyfrffyrdd).
- Mae rhai wedi ymestyn dros ardaloedd eang (e.e. clymog Japan ar lannau cyrsiau dŵr, y ffromlys chwarennog) ond mae hyd yn oed rhywogaethau estron goresgynnol sydd â phoblogaethau mwy lleol yn fygythiad difrifol iawn, e.e. y berdysyn goresgynnol
- Gwybodaeth ddefnyddiol am reoli planhigion goresgynnol dyfrol -
  Rheoli Planhigion Estron

https://publications.environment-agency.gov.uk/pdf/GEHO0410BSBR-e-e.pdf
Cod Ymarfer ar gyfer Clymog Japan
http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/wildlife/130079.aspx

- Mae **cyngor ynghylch bioddiogelwch – 'CHECK, CLEAN, DRY' a 'BE PLANTWISE' –** a gwybodaeth ychwanegol am reoli rhywogaethau estron goresgynnol dŵr croyw ar gael ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr - https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/checkcleandry/index.cfm
- Mae adnoddau newydd yn cael eu datblygu i gynorthwyo'r gwaith o reoli rhywogaethau estron goresgynnol dŵr croyw, e.e. pecyn eDdysgu ar fioddiogelwch dyfrol ac apiau ffôn ar gyfer adnabod rhywogaethau/adrodd ynghylch rhywogaethau, e.e. 'Plant Tracker'.
- Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn risg sylweddol i'r broses o sicrhau 'Statws Ecolegol Da' dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd – ceir 25 o rywogaethau estron goresgynnol risg uchel.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am fewnbwn i gynigion gweithredu ar gyfer Ail Gylch Cynllunio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2015-21), e.e. atal, dileu neu reoli/arafu'r graddau y mae'r rhywogaethau'n ymledu, mesurau ar raddfa dalgylchoedd, mabwysiadu a hyrwyddo arfer da ym maes bioddiogelwch - 'Check, Clean, Dry' ac ati.
- DYLECH GYFLWYNO EICH SAFBWYNTIAU cyn 22 Rhagfyr 2013 - http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/consultations/list-of-current-consultations/challenges-and-choices-consultation/?lang=cy

Cyswllt - Nick Bialynicki-Birula, Uwch-ymgynghorydd, Cyfoeth Naturiol Cymru
nick.bialynicki-birula@cyfoethnturiolcymru.gov.uk

- **<u>Sesiwn 1 y Gweithdy – Llwybrau / Bioddiogelwch</u>**

| | **Grŵp 1 (Chris / Matt)** | **Grŵp 2 (Gabe / Jo)** |
|---|---|---|
| **C1 Pa lwybrau y gallwch chi eu nodi?** | Nid oedd dalen ar gael ar gyfer y cwestiwn hwn. | 1. Gweithgareddau hamdden, e.e. cŵn / y sawl sy'n mynd â chŵn am dro yn lledaenu Crassula. * * <br> 2. Rhyddhau anifeiliaid yn fyw, e.e. ar gyfer gweithgareddau masnachol (e.e. cimwch arwyddol yr afon) neu weithgareddau hamdden (pysgota). * * <br> 3. Traffig ar safleoedd datblygu – diffyg bioddiogelwch yn golygu bod rhannau o blanhigion yn cael eu lledaenu ar deiars, traciau ac ati. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 4. Gwastraff gerddi'n cael ei ollwng yng nghefn gwlad, ar ymylon ffyrdd ac ati.<br><br>5. Rhywogaethau sy'n cael eu cario ar blanhigion a gaiff eu mewnforio i'r wlad (ar y planhigion eu hunain / yn y pridd).<br><br>6. Anifeiliaid yn dianc o gartrefi, o sŵ neu o sŵ adar. * |
| **C2 Pwy y mae angen eu cynnwys yn y gwaith o reoli pob un o'r rhain?** | Nid oedd dalen ar gael ar gyfer y cwestiwn hwn. | • Y cyhoedd – mater o godi ymwybyddiaeth (1 a 4) *<br>• Cymdeithasau Masnach(2 a 5) * *<br>• Bwytai<br>• Y diwydiant llongau<br>• Abwyd byw (Y Gymdeithas Bysgota)<br>• Rhyddhau anifeiliaid yn gamsyniol am resymau'n ymwneud â lles, e.e. minc America<br>• Y diwydiant adeiladu (3)<br>• Cynllunwyr<br>• Rheoleiddwyr<br>• Hobïwyr a sefydliadau (6) |
| **C3 Pa gamau gweithredu'n ymwneud â bioddiogelwch yr ydych chi'n rhan ohonynt? (y byddech / y gallech fod yn rhan ohonynt?)** | • Dyfeisiau bwydo adar<br>• Golchi dillad a chyfarpar (x2)<br>• Cael gwared â chlymog Japan<br>• Lleiniau rhagod<br>• Gwella cyfathrebu<br>• Asesiadau risg<br><br>**Beth arall y gallech chi ei wneud?**<br><br>• Glanhau cyfarpar *<br>• Cyfarpar bioddiogelwch<br>• Teithiau cerdded a | • Golchi dillad a ddefnyddir yn yr awyr agored<br>• Addysgu plant am bwysigrwydd glanhau esgidiau glaw ac ati.<br>• Cael gwared â'r ffromlys chwarennog a chlymog Japan ar ein tir ein hunain.<br>• Sgyrsiau ar ffurf 'pecyn cymorth' i gontractwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | sgyrsiau<br><br>**Rheoli safleoedd**<br><br>**Cyngor**<br>• Arweiniad o ran polisi *<br>• Asesiadau risg ar gyfer bioddiogelwch<br>• SI (?)<br><br>**Ymwybyddiaeth**<br>• Ymwybyddiaeth / addysg * * * *<br>• Cynnwys yr agwedd hon mewn cyrsiau hyfforddi * | |
| **C4 Beth yw'r anawsterau o safbwynt camau gweithredu sy'n ymwneud â bioddiogelwch?** | • Cyllid<br>• Unigolion yn cymryd amser<br>• Atebolrwydd / cyfrifoldeb (moesol) tirfeddianwyr<br>• Deddfwriaeth<br>• Dylai cyflwyniadau i safleoedd / sgyrsiau byr am agweddau ar ddiogelwch gynnwys bioddiogelwch<br>• Ymwybyddiaeth sefydliadol<br>• Y graddau y mae'r pecyn ar gael<br>• Ymwybyddiaeth | Nid oedd gan y grŵp ddigon o amser yn weddill i drafod y cwestiwn hwn. |
| **C5 Sut y gellir mynd i'r afael â'r anawsterau?** | <u>**Rhwystr / Ateb**</u><br>• Adnoddau – Ni ddaethpwyd i gasgliad<br>• Addysg – Cwrs Plas<br>• Polisi – Canllaw atodol lleol yr Awdurdod Cynllunio Lleol | Dim amser. |

**Sesiwn 2 y Gweithdy – Ymwybyddiaeth / Cyfathrebu**

| | **Grŵp 1 (Chris a Matt)** | **Grŵp 2 (Gabe a Jo)** |
|---|---|---|
| **C1 Pa waith yn ymwneud ag ymwybyddiaeth / cyfathrebu yr ydych yn ei wneud / yr hoffech ei wneud?** | • Diwrnod Mawr Afon Dyfrdwy – Y Goresgyniad (neges y cyfryngau)<br>• Presenoldeb mewn sioeau gwledig / argaeledd staff<br>• Siarad â rhanddeiliaid posibl<br>• Taflenni *ad hoc*<br>• Hyfforddiant penodol i sector<br>• Ap 'Plant Tracker'. | • Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro - ???<br>• Songbird Survival - codi ymwybyddiaeth o'r effeithiau, e.e. y corbarot torchog, y wiwer lwyd<br>• Gorllewin Cymru – Sgyrsiau ar ffurf 'pecyn cymorth'<br>• Amgueddfa Genedlaethol Cymru – sgyrsiau / darlithoedd ar bryfaid a molysgiaid estron goresgynnol<br>• Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Afon Dyfrdwy – yn codi ymwybyddiaeth drwy gynlluniau gwirfoddoli cymunedol |
| **C2 Beth yw'r anawsterau / rhwystrau i weithredu?** | • Mynediad at ddibenion rheoli – cyfannol / strategol – fforymau rhanbarthol<br>• Ymwybyddiaeth o effaith ymhlith perchen-ddeiliaid<br>• Cyllid<br>• Deddfwriaeth<br>• Ymwybyddiaeth y sector | • Mae angen neges syml, glir. Mae angen canolbwyntio ar yr ychydig brif rywogaethau yn hytrach na rhestrau hir<br>• Canfyddiad y cyhoedd o les, e.e. y minc, y wiwer lwyd *<br>• Y cyfryngau'n glastwreiddio'r neges<br>• A oes gan aelodau'r cyhoedd ddiddordeb, ac a yw'n berthnasol iddynt? * * * * *<br>• Diffyg cyllid i hyrwyddo negeseuon pwysig<br>• Y syndrom 'gwaelodlin sy'n newid', e.e. llawer o bobl / plant wedi arfer gweld gwiwerod llwyd o amgylch y lle, ac felly ystyrir mai dyna'r norm.<br>• Gosod esiampl, e.e. ni ddylai awdurdodau lleol blannu rhywogaethau estron ar eu tir nhw. * |
| **C3 Sut y gellir mynd** | **Rhwystrau - Atebion** | Dim amser. |

| | | |
|---|---|---|
| **i'r afael â'r rhain?** | • Newid y ddeddfwriaeth – Deddf Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol i Gymru<br>• Ymwybyddiaeth perchen-ddeiliaid – gwybodaeth well sydd wedi ei thargedu<br>• Ymwybyddiaeth benodol i sector – cyrsiau hyfforddi wedi eu teilwra (Plas Tan y Bwlch)<br>• Cyllid * * * * - Glastir<br>• Cynllunio – Canllawiau atodol lleol<br>• Cydweithio * - fforymau rhanbarthol<br>• Ymwybyddiaeth perchnogion – dialog â Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, byd busnes ac ati.<br>• Ymwybyddiaeth – prosiectau ysgolion. | |

* Y dot a ychwanegodd pob cynrychiolydd i ddangos beth oedd bwysicaf yn eu barn nhw

**<u>Adborth y cynrychiolwyr ar ôl y gweithdy:</u>**

**Cwestiynau dilynol:**

1. I NBB – Bu i chi sôn am brosiect sy'n cael ei ddatblygu gyda chorff dielw i ennyn diddordeb pobl ifanc. A oes gennych ragor o wybodaeth? (Cyswllt: andy.rowland@ecodyfi.org.uk)

2. I Dave Thomas – O gofio'r problemau a achosir gan y wiwer lwyd ar hyn o bryd, gan gynnwys y difrod a achosir i goed a'r ffaith ei bod yn bwyta wyau a chywion, oni fyddai'n syniad da i Lywodraeth Cymru ddychwelyd at y cynllun gwobrwyo (talu am gyflwyno cynffonau) er mwyn ysgogi gwaith rheoli?
3. (Cyswllt: John Pugh, Songbird Survival. Ymateb drwy law Keith Cowleson, keith.cowleson@songbird-survival.org.uk)

**Unrhyw bwyntiau eraill?**

4. Dim digon o amser. Rhaid sicrhau bod y gynhadledd yn cadw at yr amserlen fel nad effeithir ar y gweithdai. (Dim manylion cyswllt)

**Beth arall y byddech chi wedi hoffi ymdrin ag ef / wedi hoffi ei wneud yn wahanol?**

5. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Beth oedd yn dda?**

1. Yn braf cymysgu â phobl eraill o gefndiroedd gwahanol, a oedd ag arbenigedd, gwybodaeth a barn wahanol. Mae pawb yn dysgu ac yn elwa. (Dim manylion cyswllt)

## Yr ail ddiwrnod

## Datblygu dull o greu coetir. Russel Hobson, Dolen Amgylchedd Cymru/Cadwraeth Glöynnod Byw Cymru

**Hyrwyddwr:** Russel Hobson, Cadeirydd Gweithgor Defnydd Tir a Bioamrywiaeth, Cyswllt Amgylchedd Cymru
**Gohebydd:** Chris Tucker CNC

**Amcan:** Casglu syniadau pobl i helpu i lywio'r ddadl ar greu coetiroedd.

**Pam?**

Polisi
- Ymateb i newid yn yr hinsawdd gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd yr 100,000hectar o goetiroedd newydd

Diwylliannol/economaidd-gymdeithasol
- Nid yw ucheldir Cymru bellach yn gallu cynnal strwythur cymdeithasol, does dim cyfoeth i'w gael o weithgareddau rheoli'r ucheldir er mwyn cynnal y cymunedau. Felly, mae'r gweithgareddau wedi peidio, a'r buddiannau wedi eu colli.
- Mae coetiroedd yn gynhenid yn beth da. Nid yw gorchudd coed uchel (20% gorchudd canopi, coedlan wedi'i bori, a pharcdir) o angenrheidrwydd yn ofyniad ar gyfer coetiroedd.

Ecolegol
- Er mwyn cysylltedd. Mae coetiroedd yn well na chynefinoedd eraill.
- Er mwyn bioamrywiaeth sy'n gynhenid i goetiroedd. Mae angen sicrhau os byddwn yn plannu coetiroedd er mwyn bioamrywiaeth y caiff ei gyflawni . (JS)
- Daw coetiroedd ag amryw o fuddiannau.
- Gall coetiroedd yn y lle iawn helpu i amddiffyn rhag llifogydd a golygu buddiannau cymdeithasol.
- Rhan o ehangu rheoli tir. Rheoli dwys ar ucheldiroedd lle mae coetiroedd yn un rhan.

Arall

- Bod yn glir ar amcanion a'u hintegreiddio
- Gwella ansawdd coetiroedd
- Gwerth economaidd
- Addysg/ymgysylltu
- Barn wahanol ar beth ydi diben coeden

**<u>Beth?</u>**

Mae angen ystyried safleoedd trefol a thir isel, nid plannu yn yr ucheldir yn unig. Nid plannu coed/coetiroedd ar ei ben ei hun yn unig, swyddogaeth perthi, plannu tlws, stribedi cysgodi.

Am dros 30 mlynedd, bu cynnydd mewn gorchudd coetir cynhennid ond nid o angenrheidrwydd drwy blannu . A ydym wedi ystyried swyddogaeth adfywio naturiol ? Pam fod yn rhaid plannu dan gynllun Glastir – Creu Coetir?

Mae angen i gynlluniau grantiau fod yn hyblyg i sicrhau coetiroedd ar gyfer bioamrywiaeth fel eu bod yn llai dwys, ar Ffridd neu greu parcdir. Mae rheolau presennol Glastir sy'n gofyn am blannu 1600 o gyffion/hectarau yn amhriodol ar gyfer Ffridd. Mae 10 neu 20% o orchudd coed yn cael ei ystyried yn 'fforest'.
Gorchudd coed trefol

- Mae hwn yn cynnwys digon o ofod rhwng coed ar hyd strydoedd, i goetiroedd enfawr mewn lleoliadau trefol.
- Ceir coetiroedd trefol hyd at 15ha ond y broblem yw, a ydi'r cyhoedd yn gwybod ei bod yno?
- Mae'n anodd gwarchod coed mewn lleoliad trefol yn y broses gynllunio. Nid yw eu gwerth yn cael ei gydnabod ond mae swyddogaeth bwysig mewn plannu er mwyn ailgysylltu pobl á choed.
- Mae'r cyhoedd yn dangos digon o ewyllys da, y broblem yw nad yw pobl yn gweld eu gwerth.
- Nid yw'r cynllun grantiau yn addas at y diben ar gyfer plannu.

**Cynnwys Cymunedau**

- Deall y canlyniadau sydd eu hangen, peidio pwyso ar bobl - gwrando arnynt.
- Mae angen ymrwymiad, bod ag agwedd fwy cynhwysol at bobl, ydi'r gwaith addysgol yn gweithio?
- Dangos i bobl sut gellir defnyddio pren, nid oes gan bobl o'r ardaloedd trefol gyswllt â'r coetiroedd gan nad ydynt yn eu defnyddio at ynni ayyb.
- Coed mewn perllannau yw'r coed rydym yn gyfarwydd â nhw. Rhoi sylw i'r hyn mae pobl ei eisiau, ei angen, yn gallu uniaethu ag ef.
- Mae perllannau yn gyswllt diwylliannol rhwng pobl a choetiroedd.
- Mae coed ffrwythau'n codi ymwybyddiaeth ac yn cysylltu pobl â choed ac mae mwy o berllannau yn cael eu creu.

**<u>Ble?</u>**

Y tir mwyaf anodd i'w reoli ar ffermydd fydd yn cael ei adael ar gyfer creu. Mae'n debyg y bydd gwerth cadwriaethol arall i diroedd o'r fath. Mae angen gweithiwr maes i ymweld â safleoedd a gwirio nad yw pethau eraill yn cael eu colli. Hefyd, mae angen ystyried materion treftadaeth a thirwedd.

Dylem dargedu drwy ddefnyddio gwybodaeth am gysylltedd . Llenwi'r bylchau yn y rhwydweithiau. Sut i ddatrys plannu mewn cynefinoedd lled naturiol. Mae angen trosolwg strategol. Cydbwyso creu coetiroedd a chynefinoedd eraill , meddwl am y tirlun wrth greu cynefinoedd. Mae angen ystyried hyn yn strategol.

Beth yw Ffridd? Gellir plannu rhai o'r cydrannau, fel plannu llechweddau rhedyn sych.
Cynllun plannu YG Ffridd i ddangos pa fath o blannu sy'n ddefnyddiol. Plannu yn llai dwys. Ceir amrywiaeth o brosiectau sy'n dangos gwahanol fathau o blannu.

Diben y cynllun sy'n llywio'r cynllun. Mae mwy o ddewisiadau plannu yn golygu hyblygrwydd a mwy o ganlyniadau.

Trafodaeth ar y ffordd orau o gloi carbon.

Pryd y daw perth yn gysgodfan ac yna'n goetir?

Mae angen cyngor rhad ac am ddim, diduedd, dim pedlera grantiau ac ymgysylltu hir dymor er mwyn ennill ymddiriedaeth. Nid yw swyddogaeth ymgynghorydd ar gytundebau cyfnod byr yn caniatáu parhad, ac o'r herwydd caiff hyfforddiant ei wastraffu.

Gellir addasu cynnig newydd gan yr UE ar gyfer amaethgoedwigaeth yn y Cynllun Datblygu Gwledig i ganiatáu integreiddio pori a phlannu coed ac i fod yn gydnaws â thraddodiadau Cymreig.

Mae gofyn bod yn wyliadwrus o lefelau'r môr yn codi. Cynefinoedd morol yn mynd at y mewndir, i greu mwy, felly peidiwch â phlannu mewn ardaloedd fydd yn cael eu colli i'r môr.

**<u>Sut?</u>**

Hyblygrwydd

- Gofyn i Lywodraeth Cymru i gynnwys Glastir – Creu Coetiroedd yn eu hadolygiad, rhoi sylw i'r pryderon uchod ac edrych yn fanylach ar reolau coetiroedd Glastir.
- Mae 80% o goed fforestydd uchel yn rhy uchel. Caniatáu plannu mwy o lwyni yn y cynllun. Cynnwys rhywogaethau a llwyni arloesol o'r cychwyn. Bydd hyn yn denu pryfaid sy'n peillio. Mae'r rhan fwyaf o goed fforestydd yn cael eu peillio gan wynt. Mae angen llwyni a pherlysiau ar gyfer 'plannu' pryfaid. Efelychu systemau naturiol, nid rhywogaethau unffurf a gofod.
- Mwy o gymysgu coed a phori.
- Rheoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes i gynnwys llysysyddion.
- Datblygu modelau o bori coetiroedd i roi strwythur mwy naturiol i fforestydd.
- Llydanddail cynhennid - ystyried prawfesur hinsawdd, cymysgeddau fydd yn gallu gwrthsefyll newid. Golwg ar y strwythur terfynol a sut mae coetiroedd yn datblygu.
- Dirnadaeth fwy ecolegol o ddefnyddio coetiroedd.

- Edrych y tu hwnt i'r amgylchedd sy'n cael ei ffermio – cyfleoedd datblygu.

Mae'n her i weithwyr maes gyflwyno'r math yma o cynllun, ond nid yw mor anodd â hynny. Nid oes angen gwybodaeth ecolegol gynhwysfawr i'w gweithredu a gweld y manteision.
Cydnabod y caiff camgymeriadau eu gwneud ond mae hynny hefyd yn caniatáu i ni gael pethau'n gywir iawn. Hefyd, mae'n golygu y cawn amrywiaeth mewn tirlun.

Efallai nad arian yw'r cymhelliant ond anogwch reolaeth drwy fudd economaidd.
Marchnata - i gyd-fynd â rheolaeth coetiroedd er mwyn dangos i dirfeddianwyr beth yw manteision rheolaeth. Rhowch reoli coetiroedd yng nghyd-destun cynnyrch o'r coedlannau.

Mae angen parhau'r rheolaeth ar greu coetiroedd drwy system grantiau ac i annog pobl i gyflawni'r gwaith eu hunain. Taliadau parhaus ar gyfer y rheoli da. Pam nad yw grantiau yn cael eu cynnal yn y tymor hir?

Mae'n rhaid i reolaeth ar ôl plannu fod yn eglur o'r cychwyn.

Mae angen rheoli er mwyn llwyddo. Y cynllun, ymgynghorwyr nid pedleriaid grantiau i wthio cynlluniau mwy. Dechrau yn fach er mwyn ennill hyder tirfeddianwyr yn yr hir dymor. Annog pobl i wneud yr hyn maen nhw'n ei ddymuno fel y daw'n gynaliadwy. Nid yw taro'r targed yn beth da.

## Gweithredu drafft ar gyfer pryfed peillio:- camau nesaf. Caryn Le Roux a Gemma Light, Llywodraeth Cymru

**Cwestiynau ac atebion ynghylch canllawiau arfer gorau**

**Rheoli ymylon ffyrdd, canllawiau arfer gorau ac ati**

- Roedd y grŵp yn teimlo bod codi ymwybyddiaeth yn hollbwysig.
- Mae angen gwybod pwy sy'n gyfrifol ym mhob Awdurdod Lleol. A fyddai'n ddefnyddiol cael rhestr gyffredinol o aelodau etholedig yng Nghymru a'u meysydd cyfrifoldeb?
- Pa gyngor yw'r un sydd fwyaf caredig i beillwyr?
- A oes dull gweithredu safonol ar gyfer torri ymylon ffyrdd – a oes modd cael dull gweithredu safonol?
- Yn lle aros i gwestiynau godi, a oes deunyddiau / arweiniad / cyhoeddusrwydd ar gael ar-lein i lywio'r gwaith hwn?
- A oes unrhyw gymhellion economaidd ar gyfer rheoli ymylon ffyrdd yn well? Roedd y grŵp yn teimlo bod angen mwy o drafodaeth / sylw ar y mater hwn.

**Sut y caiff cytundebau contractio eu rheoli?**

- Dylai swyddog cyswllt bioamrywiaeth gael ei gynnwys mewn trafodaethau.
- Mae angen mynd i'r afael â'r mater sy'n ymwneud â chribinio llystyfiant ar ôl ei dorri.
- Pryd yw'r adeg orau i dorri? Torri 1 metr? – Anghysondeb / diogelwch? Oes yna raglen? Pwy sydd â'r gallu i dorri a chasglu?

- Monitro ymylon ffyrdd.
- Costau, prosesau caffael, proses dendro - contractwyr, llafur, gwaith cynnal a chadw, hadau.

**Cyllid**

- Byddai'n ddefnyddiol nodi arbenigwyr ar ddarparu cyllid yn lleol, gan nodi pwy sydd â'r arbenigedd a beth sydd ar gael o safbwynt cyllid a gwybodaeth.
- Defnyddio llwyddiannau (ceisiadau llwyddiannus am gyllid a phrosiectau llwyddiannus o safbwynt peillwyr) i lywio prosiectau yn y dyfodol. Mae cael sylfaen o'r fath yn debygol o annog cydweithredu.
- A allai fod yna ffynhonnell o gyllid?

**Mae angen canllawiau ar wahân ar gyfer y canlynol:**

- Priffyrdd
- Ysgolion – addysg yn dechrau yn yr ysgol = oedi'n digwydd
- Parciau
- Y cyhoedd
- Canolfannau garddio
- Rhandiroedd
- Clybiau garddio

**Beth fyddai'r fformat gorau ar gyfer canllawiau i ddefnyddwyr?**

- Defnyddio canolfannau gwasanaethau ar draffyrdd – posteri, taflenni, fideos.
- Adran ar fywyd gwyllt mewn gwobrau ar gyfer "Y Pentref Taclusaf", "Prydain yn ei Blodau", gwobrau ar gyfer gerddi unigol
- Radio – BBC Radio Cymru/Wales, Archers
- Teledu – Springwatch, Gardeners World, The One Show
- Ar-lein / gwefan – un ffynhonnell o wybodaeth am beillwyr? Rhyw fath o glwb y gellir ymuno ag ef er mwyn cael canllawiau ac adnoddau a fyddai'n ddefnyddiol.
- Twitter – cyfrif penodol sy'n ymdrin â pheillwyr neu ddefnyddio cyfrif Llywodraeth Cymru?
- Blog am beillwyr? Gellid ymgorffori amserlen blannu ar gyfer planhigion gydol y flwyddyn sy'n garedig i beillwyr.

**Pa negeseuon allweddol y dylid eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth?**

- Pam y mae'n bwysig newid yr amseru?
- Beth yw peillwyr? Y cyhoedd yn drysu rhwng achosion dirywiad – y wenynen fêl o'i chymharu â'r gacynen. Nid yw'r neges yn glir ar hyn o bryd.
- Mae angen tystiolaeth ynghylch pam y mae'n bwysig.
- Priffyrdd – pryderon ynghylch iechyd a diogelwch, rheoli traffig.
- Y broblem a achosir gan sbwriel.
- Hadau i'w plannu – a fydd planhigion ar gyfer peillwyr yn cael eu plannu neu a yw'n well gadael i ymylon dyfu? O ble y daw'r hadau?

- Cyfresi tymhorol o gynefinoedd sy'n blodeuo.
- Coed a llwyni – gwrychoedd draenen wen.
- Plannu planhigion sy'n garedig i beillwyr – canolfannau garddio / cymhellion ariannol / gwobrau.
- Yn ddeniadol i'r llygad.
- Gwobr y Faner Werdd – gerddi gwenyn.
- Effaith halen, graean a nitradau.

**Awgrymiadau pellach**

- Trefnu – cysylltu gwahanol sefydliadau â'i gilydd. Annog cymheiriaid i'w cyflwyno eu hunain i'w gilydd er mwyn datblygu cysylltiadau.
- Dylai sefydliadau drefnu help gan wirfoddolwyr, a chreu cysylltiadau â phobl sydd am helpu. Mae gan bobl ddiddordeb ac maent yn awyddus i helpu.
- Addysg / athrawon – Cystadleuaeth / Mentrau cydlynu / Eco-Sgolion / newid y cwricwlwm / safonau Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM).
- Mae agweddau addysgol yn bwysig iawn. Angen targedu'r oedran priodol / y lefel briodol. A allai Llywodraeth Cymru / Amgylchedd Cymru ariannu cynllun peillwyr i ysgolion? Byddai angen ei brisio – a phwy fyddai'n ei gydlynu?
- Bu'r rhan fwyaf o'r trafod yn canolbwyntio ar addysg mewn ysgolion ac ati, ond beth am addysgu oedolion y bernir eu bod yn ymwneud i raddau llai â'r materion hyn?
- Prifysgolion – Grwpiau cadwraeth.
- Ymddiriedolaethau Coedwigaeth – Cyfoeth Naturiol Cymru – arferion cwympo coed / ailblannu.

## Gweithio ar raddfa fawr: cyflawni cadwraeth ar raddfa tirwedd yng Nghymru. John Clark RSPB Cymru a James Byrne, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru

### Cadwraeth ar Lefel y Dirwedd (CLD)

Mae ***Sefyllfa Byd Natur*** a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos i ni er gwaethaf rhai gwelliannau diweddar, nad yw ein hymdrechion i wrthdroi degawdau o ddirywiad yn ein bywyd gwyllt, a'r cynefinoedd lle mae'n byw, wedi llwyddo. Mae gan hyn ganlyniadau, nid yn unig ar gyfer ein bywyd gwyllt. Mae'n golygu bod ein heconomi a'n cymdeithas yn dioddef yn ogystal, ac mae ein cymunedau mewn mwy o risg o ganlyniadau tebygol newid yn yr hinsawdd e.e. llifogydd.

O ganlyniad, mae mentrau cadwraeth ar lefel y dirwedd (CLD) yn tyfu'n gyflym mewn niferoedd ar draws y DU, gan adeiladu ar yr angen i weithio y tu hwnt i ffiniau safleoedd wedi'u dynodi, a chyfuno adnoddau drwy weithio mewn partneriaeth. Gyda'r dull reoli ar lefel yr ecosystem sy'n datblygu yng Nghymru gallai partneriaethau CLD fod yn gyfrwng i ddangos ymarfer gorau wrth gyflawni gwell gwasanaethau ar lefel ecosystemau a rheoli bioamrywiaeth gyda'i gilydd - ond os yw wedi'i gynllunio'n dda.

- Roedd y gweithdy yn ystyried

- Cyfrannu at y wybodaeth ar fentrau CLD gydag enghreifftiau gan gyfranogwyr yn cynnwys ymarfer da a drwg.

- Nodi thema gyffredin neu **nodweddion sydd wedi'u rhannu** (os oes yna un) y gellir eu canfod mewn pob prosiect CLD llwyddiannus.

Bydd gwybodaeth am lunio a chyflawni rhaglen CLD yn cael ei rannu, mewn ymdrech i adnabod ymarfer gorau ac agwedd dadansoddi bylchau.

**Enghreifftiau o CLD**
Mae'r canlynol yn enghreifftiau o fentrau cadwraeth ar lefel y dirwedd sy'n cyflawni buddion i bobl ac i fywyd gwyllt.  Maen nhw i gyd yn dangos y gall a dylai pob sector o'r gymdeithas a'r economi gymryd rhan.  Yr un mor wir, maen nhw'n amlygu nad oes un ateb sy'n addas i bawb.

- **Pontbren** - **http://www.coedcymru.org.uk/images/user/5472%20Pontbren%20CS%20v12.pdf**
- **Coedwig Tywi** - http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/8239249.stm
- **Tirwedd Fyw Pumlumon** - http://www.montwt.co.uk/pumlumon.html
- **Corsydd Môn a Llŷn** - **http://www.wtwales.org/sites/default/files/north_wales_alun_and_wheeler.pdf**
- **Landscapes for Lessers** - http://www.bats.org.uk/pages/landscapes_for_lessers.html
- **Adfer Gweundir Tŷ Ddewi** http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/?PID=150
- **Oostvaarersplassen** **http://diaplan.ku.dk/pdf/large-scale_nature_development_the_Oostvaardersplassen.pdf/**
- **Coastal Retreat** gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Essex http://www.essexwt.org.uk/reserves/abbotts-hall-farm
- **Prosiect Great Fen** - http://www.greatfen.org.uk/
- **Dalgylchoedd Alun a Chwiler** **http://www.wtwales.org/sites/default/files/north_wales_alun_and_wheeler.pdf**
- **Llyn Efyrnwy** - **http://www.rspb.org.uk/reserves/guide/l/lakevyrnwy/work.aspx**
- **SCaMP - Sustainable Catchment Management Programme** - http://corporate.unitedutilities.com/scamp-index.aspx
- **Prosiect South West Water 'Upstream Thinking'** - http://www.southwestwater.co.uk/index.cfm?articleid=8329
- **Moors for the Future** - **http://www.moorsforthefuture.org.uk**
- **Prosiect West Cambridgeshire Hundreds** **http://www.wildlifetrusts.org/living-landscape/living-landscape-schemes/scheme-directory/west-cambridgeshire-hundreds**

**Ffordd Strategol o Weithredu i Gyflawni CLD**

Dadleuwyd a oedd angen dull strategol ai peidio er mwyn cyflawni prosiectau CLD amryfal yng Nghymru.  Roedd yna fuddion o gael strategaeth gyflawn efallai wedi'i alluogi gan y Llywodraeth neu CNC.  Fodd bynnag, cafodd ei gydnabod yn ogystal na all un ateb sy'n addas i bawb weithio a bod prosiectau a phartneriaethau yn benodol i leoedd a phobl ac maen nhw'n digwydd yn organig.

Un ffordd neu'r llall, mae angen adnabod yr uned dirwedd gyda barn gyffredin o faint y dalgylch (o leiaf ar y dechrau ac yna'i gyfyngu). Gwelwyd bod adnabod ardaloedd â phroblem yn bwysig ar raddfa fawr a graddfa fechan fel ei gilydd.  Fodd bynnag, dylid datblygu meini prawf ar gyfer blaenoriaethu e.e. cyfarwyddebau yn erbyn materion penodol i'r safle.  Dylid ymgymryd â dadansoddiad risg (arian, amser ayyb) ar faterion sy'n anghyson â'i gilydd a dylai hynny effeithio ar y blaenoriaethau.

Gwelwyd yn ogystal nad yw CLDau yn bodoli ar eu pennau eu hunain a dylai partneriaethau CLD nodi cysylltiadau gyda mentrau eraill lle gellir defnyddio adnoddau amryfal ac felly creu buddion.

**Ysgogwyr**

- Cysylltedd cynefinoedd ac adfer rhywogaethau
- Anghenion cyfreithiol - Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, tordyletswydd Cyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd a thrafodaethau cyfreithiol
- Economaidd – arddangos eu bod yn well gwerth am arian
- Rheoli gwasanaethau ecosystemau fel ansawdd dŵr, erydiad y pridd, atal llifogydd, dal carbon, rheoli rhywogaethau goresgynnol, hamdden, twristiaeth, hunaniaeth genedlaethol, ansawdd dŵr, gwasanaethau ecosystemau, bywoliaeth gynaliadwy

**Heriau**

- Gall **Ddulliau o'r brig i lawr** olygu y bydd yr her i ymgysylltu â'r gymuned a'r tirfeddianwyr a gallai hyn greu adlach gyhoeddus o ddull y brig i lawr
- **Dulliau o'r Gwaelod i Fyny** mae llawer yn cael anhawster i gael cyllid a chefnogaeth gan wneuthurwyr polisïau.
- **Rheoli disgwyliadau**
- A oes yna ewyllys ac **awydd i newid** i amrywiol grwpiau neu a yw hyn yn ddim ond ail-becynnu beth yr ydym yn ei wneud yn barod?
- **Anghysonder dulliau** yn arbennig felly rhwng awdurdodau mewn gwahanol ardaloedd fel Cynghorau Lleol, CNC, sefydliadau cadwraeth ayyb.
- A fydd y gwaith yn waith hirdymor mewn gwirionedd, a fydd yna barhad mewn gwaith neu a yw'n cael ei arwain gan gyllid?
- **Cyllid** - Cyllid sy'n crebachu; Gwaith paratoadol anferthol ar gyfer ceisiadau am gyllid; mae angen cyllid hirdymor ond fel arfer cyllid tymor byr yn unig sydd ar gael a dyddiadau cau tynn i'w ddefnyddio: Fodd bynnag, mae mwy o sefydliadau yn cystadlu ar gyfer potiau bychan ac mae yna faterion ynghylch arian cyfatebol.
- **Creu partneriaethau** gyda sefydliadau amryfal yn y sectorau cyhoeddus a phreifat gydag amcanion sy'n cystadlu ac yn ymddangos yn groes i'w gilydd.
- **Dryswch** dros brosiectau sy'n cael eu rhedeg gan wahanol sefydliadau sy'n cwblhau heb strategaeth trosfwaol, fframwaith strategol. Prosiectau gyda bwriadau da sydd wedi methu â chyflawni'r buddion a ddisgwyliwyd i fywyd gwyllt neu i'r gwasanaethau ecosystemau oherwydd nad oedd yna unrhyw gyd-drefnu strategol. Mae enghreifftiau'n cynnwys coed wedi'u plannu ar gynefinoedd glaswelltir pwysig sy'n bodoli a chynefinoedd newydd a gafodd eu creu yn rhy bell oddi wrth ei gilydd neu nad oedd ganddyn nhw unrhyw gynlluniau ar gyfer eu rheoli yn yr hirdymor ac felly roedden nhw'n dirywio'n gyflym.
- Derbyn ymrwymiad gan **amryfal dirfeddianwyr**.
- Materion **lles anifeiliaid** sy'n pori er lles cadwraeth.
- **Dangos llwyddiant** i fuddsoddwyr posibl - faint (£) o ddifrod gan lifogydd a fyddai gwaith ar fawndiroedd yn arbed neu waith isadeiledd gwyrdd yn lleihau biliau iechyd.
- **Cipio data** a rhannu data rhwng sefydliadau yn ogystal â pharhau i gadw'r gwaith monitro a'r setiau-data ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben.
- '**Syndrom Gwaelodlin Symudol'** mae pob cenhedlaeth newydd yn tueddu i feddwl am yr amgylchedd o'i ieuenctid fel 'naturiol', gyda'r canfyddiad bod newid ecolegol yn newid o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'r meincnod yn gostwng yn barhaus - beth sy'n naturiol - a thrwy hyn mae cyflwr natur sydd wedi dirywio yn cael ei ystyried yn naturiol. Mae hyn yn

galluogi cymdeithas i ddod yn oddefgar o golli bioamrywiaeth yn raddol gyda'r angen am ymgyrch addysg anferth i edrych ar y mater hwn eto.

**Ffordd Ymlaen?**

- Yr angen am **gydlynydd prosiect**. Gallai unigolyn o'r fath fod yn weithiwr yn un o'r sefydliadau sydd ynghlwm yn y prosiect neu'n wirfoddolwr ond mae bodolaeth unigolyn o'r fath, gyda'r sgiliau perthnasol, yn angenrheidiol i weithredu unrhyw fenter aml-bartner gymhleth yn llwyddiannus.
- **Partneriaeth -** mae ein hamgylchedd naturiol wedi'i berchnogi, ei reoli a'i reoleiddio gan amrediad cymhleth o sefydliadau ac mae gan lawer mwy o grwpiau a chymunedau ddiddordeb ynddo, os ydyn nhw'n bysgotwyr, cerddwyr cŵn neu fusnesau lleol. Po fwyaf yr ardal, y mwyaf yw'r nifer o grwpiau rhanddeiliaid yn debygol o fod. Ni fydd pawb eisiau'r un peth, ond mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i sicrhau llwyddiant. Lle mae ymgais i weithio ar lefel y dirwedd, mae'n hanfodol bod y partneriaid i gyd yn canolbwyntio ac yn defnyddio'u hadnoddau yn gydweithrediadol.
- Mae gweithio ar lefel y dirwedd angen **cydweithredu** rhwng ac ar draws meysydd sefydliadol, gwleidyddol a gweinyddol gwahanol.
- Mae **rheoleiddio** wedi chwarae rhan allweddol mewn sicrhau gwarchod parhaus safleoedd bywyd gwyllt pwysicaf Cymru a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae egwyddor y llygrwr sy'n talu yn un sydd wedi sefydlu'n dda mewn cyfraith ac mae wedi ceisio sicrhau bod sefydliadau neu unigolion sy'n niweidio'r amgylchedd yn talu tuag at atgyweirio'r niwed a wnaed.
- **Taliad am Wasanaethau Ecosystemau** - Gwobrwyo'r rhai hynny sy'n darparu buddion amgylcheddol drwy wireddu gwerth yr hyn a wnaethon nhw. Gall ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n cytuno i ymgymryd â gwaith a fydd yn gwella'r amgylchedd neu o les i fywyd gwyllt ar eu fferm yn derbyn taliadau.
- **Strategol a lleol** – un o'r manteision o ymgymryd â gweithgareddau a fydd o les i fywyd gwyllt yw, heb ystyried gallu, y gall pawb wneud rhywbeth, un ai fel unigolyn, cymuned, sefydliad neu fusnes, ac mae pawb yn elwa.
- Dylid ystyried cost gychwynnol (fel costau cyfalaf) yn y tymor byr er mwyn lleihau'r baich economaidd mewn cyfnodau eraill.
- Rhaglen LIFE N2K i Gymru – ceir ffynonellau cyllid a fydd yn cynorthwyo gwaith paratoadol. Fodd bynnag mae hyn ar gyfer safleoedd N2K yn unig – a ellir addasu hyn drwy Gymru neu'r tirweddau?
- Gwell cyfathrebu rhwng sefydliadau ynglŷn â cheisiadau.
- Staff cyllid penodol sy'n gallu cydlynu ceisiadau neu rannu adnoddau.
- Dylid cyfathrebu canlyniadau i'r gymdeithas drwy naratif ac nid data yn unig – ei wneud yn weladwy.
- Dylai pob CLD ystyried cynnal gweithdai i randdeiliaid, cyfle i fapio drwy SGDd a gwerthuso gwasanaethau ecosystemau.
- Mae gwybod am gyflwr presennol yr amgylchedd o fewn ardal ar lefel y dirwedd a chael gwybodaeth am ei botensial (ynglŷn â'r bywyd gwyllt y gall gefnogi a'r gwasanaethau ecosystemau y gall eu darparu ac ynglŷn â phrosiectau eraill sy'n bodoli er mwyn cysylltu â nhw) yn hanfodol er mwyn gallu mesur cynnydd a nodi a gwireddu potensial amgylcheddol ardal.

- Dylid adeiladu isadeiledd gwyrdd wrth ddatblygu neu gyllido (e.e. SCEC) a thrwy hyn, gellid ychwanegu'r canlynol mewn ardaloedd trefol neu barthau adfywio - toeau/waliau gwyrdd, coed yn y stryd, gerddi glaw neu barciau bychain. Byddai'r rhain o fudd i fywyd gwyllt ac yn cyflawni gwasanaethau ecosystemau drwy leihau llifogydd dŵr ar yr wyneb, darparu oeri mewn trefi neu leoedd i gymdeithasu ac ymlacio.
- Sefydlu cwmnïau ffermio cydweithredol er mwyn rhannu peiriannau.
- Sicrhau bod gan safleoedd sy'n perthyn i'r cyhoedd/wedi'u rheoli gan y cyhoedd gynllun rheoli sy'n cael ei weithredu a bod y data ecolegol a'r arbenigedd diweddaraf ar gael, a'u bod yn cael ei defnyddio'n lleol er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer pob penderfyniad cynllunio a phenderfyniadau eraill gan awdurdodau.
- Gall data gael ei gadw gan lawer o wahanol sefydliadau a gall fod yn anodd ei ganfod neu'n anodd ei gael. Byddai gwella coladu, rhannu a chyhoeddi data yn sicr yn cynorthwyo prosiectau ar lefel y dirwedd gyrraedd y canlyniadau sydd eu hangen.

## Garddio bywyd gwyllt gydag ysgolion, cymunedau a busnesau. Anna Williams and Iwan Edwards, Prosiect Garddio Bywyd Gwyllt Cymru / Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Rhannwyd a thrafodwyd profiadau cynnal cynlluniau ysgol a chymuned:**

**GWERSI A DDYSGWYD o'n safbwynt ni – Cynlluniau ysgol**

1. Mae angen cyngor arbenigol a chymorth ymarferol
2. Ysgolion i dalu'n rhannol am gynllun gardd.
3. Cynnwyd tîm cynnal a chadw tir ysgol yn natblygiad cynlluniau.
4. Llunio grŵp gardd yn yr ysgol; cynnwys disgyblion, gweithwyr eraill nag athrawon. Amcanu cynnwys rhagor nag un aelod staff. Rhoi gwybod i'r llywodraethwyr.
5. Cynnwys yr ardd yng nghynllun rheoli'r ysgol.
6. Cynlluniau gwobrwyo / cystadlu o ddiddordeb i ysgolion, gan sicrhau parhad gwaith a diddordeb yn yr ardd.
7. Diwrnodau hyfforddi athrawon yn bwysig, gan fod diffyg gwybodaeth ymysg staff.
8. Newyddlen eco-ysgolion sirol yn ardderchog ar gyfer rhannu syniadau.
9. Rhoi gwybod i ysgolion am gymorthdaliadau a digwyddiadau lleol.
10. Gwnewch o'n hwyl!!

**Budd o safbwynt yr ysgolion:**

- Disgyblion yn darganfod natur
- Yn wych ar gyfer disgyblion anghenion arbennig
- Gofyniad y cwricwlwm parthed dysgu yn yr awyr agored
- Athrawon brwdfrydig yn medru datblygu syniadau â chymorth cynllun garddio bywyd gwyllt
- Hyfforddi athrawon, sydd wedi arwain at weithredu mewn ysgolion
- Canfod ffynonellau cymhorthdal ar gyfer ysgolion, Ymddiriedolaeth Edina, e.e.
- Cyngor ad hoc ar gael gennym
- Cynllun iaith Gymraeg

**Dymuniadau ar gyfer symud ymlaen**

- Nawdd ar gyfer swyddogion garddio gwyllt ym mhob rhan o Gymru

**Newyddion da ar gyfer Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yng Nghymru**

Mae Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ledled Cymru'n derbyn arian gan y Co-op er mwyn cyflawni cynlluniau garddio bywyd gwyllt yn 2013-2015. Bydd pob un ardal yn cyflawni cynlluniau ychydig yn wahanol i'w gilydd, yn unol â'r arian a ddyrennir.

Bydd adnoddau ar gael ar-lein.

Gobeithir dechrau arolwg gerddi bywyd gwyllt ar gyfer y cyhoedd yn y gwanwyn.

**Cynlluniau eraill**

- **Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (RHS)** – cynllun garddio ysgolion, cynllun meincnodi ar-lein a chymorthdaliadau. Adroddiad diweddar ar "Effaith garddio mewn ysgolion ar ddysgu"
- **RHS ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt** – WILD ABOUT GARDENS www.wildaboutgardens.org
- **Y Cynllun Gerddi Cenedlaethol –** Diwrnodau Agored yn codi arian ar gyfer elusennau. Darfu inni ymuno â'n gilydd unwaith neu ddwy
- **Y Gymdeithas Frenhinol Er Gwarchod Adar (RSPB)** – Cartrefi ar gyfer bywyd gwyllt – Ymgyrch Gwylio Adar Gerddi – cyngor ynghylch gardd bywyd gwyllt, taflenni.
- **Ymddiriedolaeth Adarydda Prydain (BTO)** – Gwylio adar gerddi

- **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol** – gwefan: Ymrowch i Weithgareddau, cyfarwyddiadau "Sut mae…", clipiau fideo
- **Flora locale** – Blodau gwylltion brodorol, cyrsiau, llyfrgell astudiaethau achos
- **Garden Organic** – cynllun garddio ysgolion, Partneriaeth "Bwyd am Fywyd"
- **YMDDIRIEDOLAETHAU BYWYD GWYLLT LLEOL,** Gwent: Cynllun Cardwenynen feinllais, Maldwyn: Cynllun gwobrwyo, hunan-asesedig, De a Gorllewin Cymru: Newyddion Garddio
- **Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt y Deyrnas Unedig** – Maniffesto, rhagor na 150 o asiantaethau wedi ymuno

## Hybu ymgysylltiad â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol – defnydd technegau dysgu newydd. Diana Reynolds, Grŵp B4C/ Llywodraeth Cymru

**O'r hyn yr ydym yn ei wneud eisoes, beth sydd ar y trywydd cywir?**

- Rydym yn rhwydweithio ac yn cyfathrebu'n dda o fewn y sector
- Rydym yn darparu cyfleoedd i drafod a rhwydweithio'n fyrfyfyr
- Rydym yn mynd i'r afael â'r problemau (cyflwr byd natur)
- Rydym yn gwerthfawrogi'r hyn sydd gennym ond yn sylweddoli beth sydd ar goll

**Sut y gallwn ni wella hynny?**

- Cyfathrebu'n well â'r gymuned ehangach
- Defnyddio Cymraeg a Saesneg clir da er mwyn ehangu rhwydweithiau cyfathrebu
- Neilltuo rhagor o amser i drafod/cynnal cyfarfodydd heb agenda
- Gwahodd pob rhanddeiliad allweddol – grwpiau ac unigolion – sicrhau cynhwysiant gwirioneddol

Ein **prif ddymuniad** yw bod yn wirioneddol ymwybodol o'r amserlenni go iawn sydd dan sylw

**Pa adnoddau ac astudiaethau achos yr ydym yn gwybod amdanynt?**

**Gwthio i'r cyfeiriad cywir:**

Mae'r canlynol yn rhoi ystyriaeth eithaf academaidd ond trylwyr iawn i'r pwnc hwn:

Rhys Jones, Jessica Pykett a Mark Whitehead. *Changing Behaviours – On the Rise of the Psychological State,* Edward Elgar Publishing, Cheltenham, ISDN: 978 0 85793 687 5

http://www.e-elgar.co.uk/bookentry_main.lasso?currency=UK&id=14572

(mae'n cynnwys astudiaeth achos am y fenter Blas am Oes yng Ngheredigion)

**Cynhyrchu ar y cyd:**

Adnodd 'how to' Llywodraeth Cymru a gynhyrchwyd ar y cyd (a fyddai modd i ni ychwanegu hwn at yr adran Rhestrau gwirio ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru?)

Mae Sefydliad Cymuned Caffi'r Byd yn darparu adnoddau rhad ac am ddim gan ofyn am gyfraniad os ydych yn defnyddio ei adnoddau at ddiben proffesiynol:

http://www.theworldcafe.com/tools.html

Bod yn ystyriol:

Nid oes gennym ddolen gyswllt (oni bai bod rhywun arall yn gallu awgrymu un?) ond gallai cwrs fod ar gael yn eich ardal leol.

**Elfennau diwylliannol heintus:**

Dyma rai llyfrau'n seiliedig ar elfennau diwylliannol. Mwynhewch! (Gair o rybudd!! – Gall gweld pa rai sydd ar y blaen ar hyn o bryd eich digalonni!! Gall beri i chi deimlo'n ddiflas tu hwnt – neu'r gobaith yw y bydd yn eich gwneud yn fwy penderfynol o hybu elfennau diwylliannol mwy ffafriol!)

http://www.amazon.co.uk/Virus-Mind-Revolutionary-Science-Affects/dp/1848501277/ref=pd_cp_b_1

http://www.amazon.co.uk/The-Meme-Machine-Popular-Science/dp/019286212X/ref=pd_sim_b_3

**Beth yw 'cydgynhyrchu?**

Cydgynhyrchu yw ffordd o sicrhau canlyniadau gwell drwy rannu pŵer a chyfrifoldeb. Mae cydgynhyrchu'n golygu gweld pobl fel asedau sy'n gallu rheoli eu sefyllfaoedd eu hunain; mae'r rhan fwyaf ohonom yn credu hyn ond dydyn ni ddim yn wastad yn dangos hynny yn ein gwaith. Mae cydgynhyrchu'n dibynnu ar gyfres o egwyddorion craidd, ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob partner newid y ffordd y mae'n gweithio.

**Egwyddorion cydgynhyrchu**

Does dim rhestr 'swyddogol', ond dyma un dda:

- rhoi gwerth ar y lle yr ydym yn gweithio a/neu yn byw ynddo
- parchu a gwerthfawrogi pobl, sy'n bresennol ac yn absennol, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol
- adeiladu ar eu cryfderau/diddordebau
- datblygu rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid
- cydraddoldeb, cydfuddiant a chydgyfnewidiaeth
- hwyluso nid ymyrryd

**Sut i ddechrau cydgynhyrchu?**

Defnyddiwch y syniadau uchod ac isod i lunio rhywfaint o strwythur i'ch cyfarfod, ond ddim gormod, a ... rhowch gynnig arni. Cewch weld sut y mae'n gweithio ar y pryd (os oes modd), a myfyriwch am y peth wedyn. Gwnewch rai newidiadau i'ch techneg/dull y tro nesaf. Rhannwch eich profiadau gydag eraill a dysgwch gyda'ch gilydd. Gwnewch hyn eto am 10,000 o oriau neu am gymaint o amser ag sydd gennych.

**Dull ar gyfer cydgynhyrchu**

Does dim dull 'swyddogol', oherwydd mae cydgynhyrchu'n golygu ymateb i'r bobl yn yr ystafell, yn y fan a'r lle, ac felly mae'n wahanol bob tro. Dyma ddull posibl:

- Gwahoddwch bawb sydd â diddordeb, yn enwedig pobl y tu allan i'ch cylch arferol
- Dechreuwch gyda phobl ymhle maen nhw, gyda'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Peidiwch â dechrau ble ydych chi eisiau iddyn nhw fod, neu gyda'r hyn yr ydych chi eisiau ei ddweud wrthynt
- Rhowch rywfaint o strwythur – e.e. rhai cwestiynau pwysig, a defnyddiwch nhw i ymchwilio, rhannu a gwrando, a hynny gyda'ch gilydd
- Chwiliwch am ffynonellau tystiolaeth bellach a gwybodaeth ddiddorol
- Ceisiwch gael camau, ni waeth pa mor fach ydyn nhw, y gallwch chi gytuno arnynt gyda'ch gilydd, a nodwch rhai materion anodd yr ydych am eu trafod ymhellach
- Ewch ati i ddefnyddio'r adnoddau (prin mae'n siŵr) sydd ar gael mor ddyfeisgar a chadarnhaol ag y gallwch – peidiwch â dweud wrth eich gilydd beth i'w wneud ond ceisiwch wneud argymhellion
- Gwnewch benderfyniadau drosoch eich hun yn unig, h.y. y rhai sydd yn yr ystafell, a meddyliwch am ffordd o wahodd pobl o'r tu allan i ymuno os ydynt eisiau
- Gofynnwch am adborth, a synhwyrwch sut mae pethau'n mynd

**Ydyn ni'n cydgynhyrchu eto?**

Efallai mai cydgynhyrchu sy'n digwydd os byddwch yn gofyn cwestiynau fel y rhain:

"Beth sy'n bwysig i chi?" "Sut ydych chi am i'ch bywyd fod?" "Beth sy'n ddiddorol/bwysig am y sefyllfa hon?" "Beth arall sydd angen ei wybod?" "Beth allwn ni ei wneud i helpu ein gilydd a'n hunain ar yr un pryd?" "Pwy arall y dylen ni/y gallen ni eu cynnwys?"

**Lle i ddysgu rhagor?**

http://coproductionnetwork.com/page/about-coproduction
http://www.timebanking.org/about/co-production-and-timebanking/